

# Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth  
Towards Excellence



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR SWADESTRIF SIROL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR SWADESTRIF SIROL  
wrecsam

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 20FED CHWEFROR, 2019**

Lleoliad

**Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**cabinet@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13/02/19)

# **CYD-BWYLLGOR GWE**

## **Aelodau a phleidlais**

### **Y Cynghorwyr**

Cynghorydd Meirion Jones  
Cynghorydd Garffild Lewis  
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts  
Cynghorydd Ian Roberts  
Cynghorydd Phil Wynn  
Cynghorydd Gareth Thomas

Cyngor Sir Ynys Mon  
Cyngor Bwrdeistref Conwy  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Gwynedd

## **Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais**

Rosalind Williams  
Haf Williams  
Peter Agnew  
Jonathan Morgan  
Alison Fisher

Yr Eglwys yng Nghymru  
Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd  
Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd  
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig  
Cynrychiolydd Llywodraethwr

## **Swyddogion Heb Bleidlais**

Arwyn Williams  
Dr Lowri Brown  
Karen Evans  
Claire Homard  
Ian Roberts  
Garem Jackson

Cyngor Sir Ynys Mon  
Cyngor Bwrdeistref Conwy  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Gwynedd

## **Swyddogion yn bresennol**

Arwyn Thomas  
Iwan G. Evans  
Dafydd L. Edwards  
Steve Vincent  
Susan Owen Jones  
Dr Gwynne Jones  
Rhys Howard Hughes  
Alwyn Jones  
Gareth Williams

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE  
Awdurdod Lletyol  
Awdurdod Lletyol  
Llywodraeth Cymru  
Rheolwr busnes a Chyllid GwE  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE  
Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

## **Sylwebydd**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I ddebyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw faterion brys

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 28 TACHWEDD 2018 5 - 8

Copi amgaedig

## 5. CYLLIDEB GWE 2018-19 - ADOLYGU CHWARTER 3 9 - 13

*Adroddiad gan Dafydd L Edwards*

## 6. CYLLDIEB GWE 2019/20 14 - 19

*Adroddiad gan Dafydd L Edwards*

## 7. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 20 - 40

*Adroddiad gan Dafydd L Edwards*

## 8. CYNLLUN BUSNES 2018-19 - MONITRO CHWARTER 3 41 - 50

*Adroddiad gan Arwyn Thomas*

## 9. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 - BLAENORIAETHAU 2019-20 51 - 56

*Adroddiad gan Arwyn Thomas*

## 10. COFRESTR RISG 2018-19 - ADOLYGU CHWARTER 3 57 - 68

*Adroddiad gan Arwyn Thomas*

- 11. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - CYLCH GORCHWYL** 69 - 73

*Adroddiad gan Alwyn Jones*

- 12. CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL** 74 - 84

*Adroddiad gan Alwyn Jones*

- 13. CALENDR CYFARFODYDD 2019/20** 85 - 87

*Adroddiad gan Arwyn Thomas*

- 14. CENHADAETH EIN CENEDL: CWRICWLWM GWEDDNEWIDIOL - CYNIGION AM FFRAWAITH DEDDFWRIAETHOL NEWYDD**

*Cyflwyniad gan Ruth Thackray*

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/dogfen-ymgynghori-cwricwlwm-trawsnewidiol.pdf>

- 15. ADY - YMGYNGHRIAD AR Y COD ADY DRAFFT**

*Cyflwyniad gan Margaret Davies*

[https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/dogfen-ymgynghori-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft\\_0.pdf](https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/dogfen-ymgynghori-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft_0.pdf)

---

## CYDBWYLLGOR GwE

28.11.2018

---

### Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:** Gareth Thomas - Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Phil Wynn - Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych) Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), a Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn).

Aelodau Cyfetholedig heb Bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig)

**Swyddogion heb bleidlais:** Arwyn Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Sir Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dafydd Ifans (Cyngor Conwy)

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE) Iwan G Evans (Swyddog Monitro Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Hefin Owen (Cyngor Gwynedd), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Bethan Roberts (GwE), Marc Hughes (GwE), Sion Wyn Evans (GwE), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Mon), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Dafydd L Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol) a Haf Williams (Ysgol Deganwy)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

### 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 26 Medi 2018, fel rhai cywir.

### 5. ADRODDIAD AR BERFFORMIAD Y RHANBARTH 2017-18

#### PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad.

#### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod newidiadau sylweddol wedi eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. O ganlyniad nid oes unrhyw wybodaeth gymharol ar lefel awdurdod lleol nag ar lefel consortia ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3.

Cychwynnwyd drwy drafod y Cyfnod Sylfaen a nodwyd er bod perfformiad wedi gostwng yn rhanbarthol, mynegwyd fod y gostyngiad yn is na'r gostyngiad cenedlaethol ar draws bob adran. Y prif reswm am hyn yw'r defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg o'r Fframwaith CS ar gyfer asesu. Wrth edrych ar Gyfnod Allweddol 2 nodwyd fod perfformiad yn parhau i fod yn gadarn ym mhob pwnc gyda'r rhanbarth yn parhau i fod yn gryf ar y lefel disgwyliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl. Nodwyd y bydd GwE yn parhau i gryfhau gweithio clwstwr ymhellach er mwyn hyrwyddo cydweithrediad a rhannu arferion da. Nodwyd fod proffil Estyn ar gyfer ysgolion cynradd yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn gyda chynnydd yn niferoedd o ysgolion wedi derbyn dyfarniadau uchaf i 13.2%. Ychwanegwyd mai dim ond 3 oedd yng nghategori statudol Estyn ar hyn o bryd, sydd yn 0.75% o ysgolion cynradd y rhanbarth.

Wrth edrych ar Gyfnod Allweddol 3, nodwyd fod y perfformiad yn gadarnhaol a bod perfformiad y rhanbarth yn parhau yn uwch na'r ffigur cenedlaethol yn y pynciau craidd. Trafodwyd y bwlbh rhywedd rhanbarthol, ble mae merched yn parhau i berfformia'n well na bechgyn.

Mynegwyd yn gyffredinol mai siomedig yw perfformiad Cyfnod Allweddol 4, gan ychwanegu fod Strategaeth Gwella Ysgolion Uwchradd yn nodi cyfeiriad ar gyfer datblygiadau rhanbarthol dros y tair blynedd nesaf. Ychwanegwyd fod GwE wedi bod yn gweithio i wella perthynas gyda'r ysgolion ac mae gwaith yn cael ei wneud i'w cefnogi. Mynegwyd fod gwaith yn cael ei wneud gan GwE i wella effeithiolrwydd arweinyddiaeth canol o ran arwain yr addysgu, asesu, tracio a'u gallu i werthuso yn gadarn a gobeithir y bydd hyn yn dwyn ffrwyth yn ystod y blynedd nesaf. Ychwanegwyd fod gwaith yn cael ei wneud i well perfformiad dysgwyr PYD drwy sicrhau fod ysgolion yn derbyn arweiniad a chymorth clir ynghylch strategaethau effeithiol, dysgu a thracio.

Nodwyd fod GwE yn buddsoddi yn CA3 a fydd yn llifo i mewn i CA4, a nodwyd fod y berthynas rhwng GwE ac ysgolion uwchradd yn gadarn iawn. Ychwanegwyd fod camau wedi eu gwneud ond nad yw'r canlyniadau yn amlwg eto. Trafodwyd disgyblion PyD, gan nodi y bydd effaith o bosib pan fydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno.

Trafodwyd canlyniadau TGAU Saesneg, gan bwysleisio ei bod yn anodd symud ymlaen tan y bydd esboniad arwyddocaol i beth ddigwyddodd. Nodwyd anghysondeb mewn ymatebion gan Gymwysterau Cymru, ac y dylai disgyblion sydd wedi cyrraedd y safon dderbyn Gradd C. Mae codi'r nifer o farciau oedd angen i gael gradd C yn yr Haf wedi golygu na all nifer sylweddol o ddysgwyr y rhanbarth fynd ymlaen i'r cyrsiau ôl-16 oeddynt wedi dymuno eu dilyn.

Mynegwyd nad yw Cymwysterau Cymru wedi rheoli'r sefyllfa yn dda, a nad oes unrhyw ymddiheuriadau wedi ei dderbyn. Nodwyd fod Kirsty Williams wedi nodi nad oes modd i'r Llywodraeth gomisiynu ymgynghoriad gan ei fod yn fwrdd annibynnol.

Trafodwyd Cyfnod Allweddol 5 gan nodi fod y model ar gyfer y ddarpariaeth yn amrywio o fewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Er hyn nodwyd cynnydd yn A2 ac Uwch gyfrannol, ac ychwanegwyd fod y rhanbarth ar y blaen yn rhanbarthol o ran Cymru mewn rhai dangosyddion ond y tu ôl ar fesurau eraill.

## **6. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - ADOLYGU'R DDARPARIAETH AR DRAWS Y RHANBARTH**

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y cynigion a amlinellir isod er mwyn grymuso'r Awdurdodau a'r Rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg fel y nodir yn:

- Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4

#### TRAFODAETH

Nodwyd fod Bwrdd Strategol Y Gymraeg yn arwain, cydlynu a rheoli maes y Gymraeg yn rhanbarthol ac yn atebol i Fwrdd Rheoli GwE. Gwnaed argymhelliad y dylid cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol fel bod y rhanbarth yn ymateb yn llawn i gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau cyd-lyned a chynhwysedd priodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.

Holwyd beth yw amserlen yr adolygiad ac ychwanegwyd ei bod yn bwysig adnabod beth yw'r arferion da sy'n digwydd ar draws y rhanbarth. Ychwanegwyd y bydd angen mapio'r system llywodraethu gan y bydd rhai o'r materion fydd yn codi yn rhai i'r Awdurdodau Lleol a'u Cabinet yn hytrach na'r Cydbwyllgor.

### **7. CYLLIDEB GwE 2018/19 – ADOLYGIAD 2IL CHWARTER**

#### PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad

#### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi nad oes llawer o newid i gymharu gyda'r adolygiad chwarter cyntaf. Tynnwyd sylw at danwariant un-tro o ganlyniad i secondiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol o'r 1af o Fehefin.

Trafodwyd grantiau'r Llywodraeth gan nodi fod arian Grant Gwella Addysg wedi ei dorri flwyddyn yn ôl ond bod y toriad disgwyliadwy eleni heb gymryd lle. Nodwyd fod cyhoeddiad wythnos ddiwethaf wedi nodi arian ychwanegol i Ysgolion ond bod disgwyl am amodau gan y llywodraeth cyn ei ddsrannu.

Nodwyd fod angen fod bod yn glir beth yw amodau'r grant yma, a sut y bydd modd ei wario. Gyda chefnogaeth GwE, efallai bydd modd creu amserlen gyda phenaethiaid er mwyn gwneud y mwyaf o'r arian grant.

### **8. COFRESTR RISG**

#### PENDERFYNIAD

Derbyn yr Adroddiad.

#### TRAFODAETH

Mynegwyd nad oedd llawer o newid i'r gofrestr risg yn dilyn cyfarfod mis Medi. Ychwanegwyd fod risgiau 1,2,5,7 ac 17 wedi eu diweddarau. Ychwanegwyd fod y risgiau wedi ei lliniaru.

## **9. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 – ADRODDIAD MONITRO CHARTER 2**

### **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gwaith yn cael ei wneud ar safonau ac ar CA4. Nodwyd fod ychwanegu'r golofn 'Tracio proffil gwariant Ch2' yn ychwanegiad defnyddiol er mwyn sicrhau fod gwariant ar gyfer blaenoriaethau ar drac. Nodwyd fod yr adroddiad yn adlewyrchu safonau a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Bydd angen dechrau trafodaethau ar gyfer ffocws GwE ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

## **10. SESIWN HERIO AC ADOLYGU'R HYDREF - ADBORTH**

Diolchodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i Gareth Thomas a Karen Evans am eu gwaith. Mynegwyd fod y cyflwyniad wedi dangos sut mae'r Cydbwyllgor yn cyd-weithio yn rhanbarthol ac yn arddangos aeddfedrwydd y bartneriaeth. Ychwanegwyd fod y Sesiwn Herio ac Adolygu'r Hydref wedi gosod y bar yn uchel a'i fod yn amlygu aeddfedrwydd gwleidyddol y Cydbwyllgor.

Nodwyd fod sialensiau wedi codi yn ystod blynyddoedd cyntaf GwE ond fod y rhanbarth wedi dysgu gwersi ac wedi gallu symud ymlaen.

## **11. Y DAITH DIWYGIO – ADY**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Margaret Davies ar ble mae'r daith diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegu. Mynegwyd fod angen sicrhau fod y disgyblion yn cael y gefnogaeth gywir yn y cyfnod cywir. Ychwanegwyd fod o gwmpas 22,000 o ddisgyblion ADY yn y rhanbarth ac felly bod angen sicrhau fod y ddarpariaeth angenrheidiol ar gael.

Nodwyd y gwaith sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd a'r blaenoriaethau. Ychwanegwyd y bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn mynd yn weithredol yn y 18mis nesaf, ac o ganlyniad bydd angen sicrhau fod ysgolion yn ymwybodol o'r wybodaeth angenrheidiol ac yn hyderus eu bod yn cwrdd â gofynion y ddeddf newydd. Mae posibilrwydd y bydd yn gyfnod heriol i ysgolion. Esboniwyd y bydd angen i staff fod yn ymwybodol o beth yw'r camau cyfreithiol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Trafodwyd cyfathrebu - yr awdurdodau lleol fydd â'r atebolrwydd cyfreithiol.
- Trafodwyd disgyblion sydd yn cael eu haddysgu adref, a sut y bydd angen sicrhau cefnogaeth iddynt fel rhan o'r ddeddf newydd.
- Holwyd os yw ysgolion a GwE yn barod am y ddeddf newydd - nodwyd ei fod yn gyfnod o lawer o newid. Trafodwyd y cynhwysedd i wneud popeth. Mynegwyd fod ymdrech i blethu popeth gyda'i gilydd.
- Trafodwyd y bartneriaeth newydd fydd ei angen gyda Cholegau a Phrifysgolion.
- Nodwyd bod angen edrych yn ehangach nag addysg yn unig. Bydd angen trafodaeth bellach ar yr eitem yma i'r dyfodol.





<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	20 Chwefror 2019
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad 3ydd Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2018/19.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Prif gasgliad yr adolygiad chwarter 3 yw bod disgwyl bydd GwE yn cadw oddi fewn y cyllid craidd a grantiau penodol sydd ar gael yn 2018/19.
- 1.2 Yng nghyfarfod 28 Tachwedd y Cydbwyllgor amcangyfrifwyd sefyllfa net lled niwtral am eleni, gyda thanwariant net o (£994).
- 1.3 Ers hynny, ni fu newid arwyddocaol i'r sefyllfa net, a bellach rhagwelir tanwariant o (£1,618). Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.
- 1.4 Bwriedir cyflwyno cynllun gweithredu i'r Cydbwyllgor yn fuan, yn datrys yn barhaol y diffyg cyllidol amlygir yn rhan 2.3 a rhan 2.4.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:**

#### **Chwarter 3: tanwariant (£85,608) Chwarter 2: tanwariant (£78,750).**

Mae trosiant staff, yn bennaf secondiad i Gyfarwyddwr Cynorthwyol o'r 1af o Fehefin wedi arwain at danwariant un-tro gan ariannu, ar sail dros dro, arbedion i'w ddarganfod (gweler 2.4). Mae trosiant ychwanegol i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2, yn bennaf gydag anawsterau penodi swyddog cyllid dros dro, wedi cynyddu'r tanwariant ychydig.

### 2.2 **Cludiant – Costau Teithio:**

#### **Chwarter 3: tanwariant (£5,069) Chwarter 2: tanwariant (£5,682).**

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir bod hyn yn parhau yn 2018/19.

### 2.3 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

#### **Chwarter 3: Gorwariant £41,180 Chwarter 2: Gorwariant £35,559.**

Mae'r pennawd yma yn gorwario yn flynyddol am nifer o resymau. Disgwylir i hyn barhau yn 2018/19. Yn benodol i 2018/19, mae anawsterau penodi cyfieithydd dros dro, a gofynion ychwanegol rhai Prosiectau Penodol, yn cynyddu'r defnydd o gyfieithwyr allanol. Gwelir cynnydd bychan yn y gorwariant ar draws sawl pennawd.

### 2.4 **Arbedion i'w darganfod**

#### **Chwarter 3: Gorwariant £47,879 Chwarter 2: Gorwariant £47,879.**

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2, sef gorwariant, gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r targed arbedion. Defnyddir arbediad trosiant staff (gweler 2.1) i'r targed arbedion yn y tymor byr.

## 2.5 **Grant Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol**

### **Chwarter 3 : Niwtral Chwarter 2 : Niwtral.**

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Yn 2018/19 mae holl grantiau mae'r GwE yn ei dderbyn yn flynyddol, oni bai i'r Grant Datblygu Disgyblion, wedi ei gyfuno i un grant cynhwysfawr. Mae'r gyllideb wedi ei addasu i weithredu'r newid yma. Ni ragwelir gôr na than wariant hyd yma.

#### *Dadansoddi'r grant cychwynnol gyflawn isod (llythyr cynnig 12 Mawrth 2018):*

Datganoledig*	£25,908,641
Heb ei ddatganoli	£ 9,198,005
Cyfanswm	<b><u>£35,106,646</u></b>
Grant	£32,620,366
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Is-gyfanswm	<b><u>£35,106,646</u></b>

#### *Dyraniad Ychwanegol (llythyr cynnig 28 Ionawr 2019):*

Datganoledig – Dysgu'n Broffesiynol*	£ 2,011,729
Nifer penawdau Codi Safonau	£ 1,088,843
Is-gyfanswm	<b><u>£ 3,100,572</u></b>
Cyfanswm Terfynol 2018/19	<b><u>£38,207,218</u></b>

\* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

## **3. CRONFA TANWARIANT**

- 3.1 Ar ôl defnyddio £466,956 yn 2017/18, cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2018/19 oedd £271,616, ac am y tro oherwydd ansicrwydd ariannu i'r dyfodol, nid yw hwn wedi ei ymrwymo i'w wario eleni ac yr run modd ar gyfer 2019/20.

### **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2018/19 – Adolygiad 3ydd Chwarter 2018/19.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

GWE JOINT COMMITTEE

Budget Review 2018/19 : Third Quarter October - December 2018

	Revised Budget Quarter 2 £	Adjustments £	Revised Budget Quarter 3 £	Estimated Expenditure £	Over / (Under) Spend Net (Quarter 3) £	Over / (Under) Spend Net (Quarter 2) £
<b>Expenditure</b>						
Employees						
Salaries						
- Management, Brokerage, Standards and Administration	957,615		957,615	872,007	(85,608)	(78,750)
- System Leader	3,696,935		3,696,935	3,696,935	0	0
- Staff on Secondment	239,070		239,070	239,070	0	0
- Transferred against 'Specific Projects'	(1,652,930)		(1,652,930)	(1,652,930)	0	0
Training, advertising and other employee costs	39,814		39,814	39,814	0	0
Building						
Rent (includes services)	161,958		161,958	161,958	0	0
'Specific Projects' usage of offices recharge	(55,000)		(55,000)	(55,000)	0	0
Travel						
Travel Costs	128,321		128,321	123,252	(5,069)	(5,682)
Supplies and Services						
Furniture, equipment, printing, postage, telephone, room hire etc	31,012		31,012	69,024	38,012	32,391
Information Technology	15,422		15,422	15,422	0	0
Audit Fees	7,832		7,832	11,000	3,168	3,168
Brokerage	269,889		269,889	269,889	0	0
Gwynedd Council Host Authority Support Service Costs						
Legal	5,352		5,352	5,352	0	0
Human Resources	9,178		9,178	9,178	0	0
Finance	39,690		39,690	39,690	0	0
Information Technology	43,898		43,898	43,898	0	0
Savings to be found - 2018/19	(36,879)		(36,879)	0	36,879	36,879
Savings to be found - Rent Budget	(11,000)		(11,000)	0	11,000	11,000
National Model Commitments	463,003		463,003	463,003	0	0
Specific Projects						
Regional Consortia School Improvement Grant	9,198,005	1,088,843	10,286,848	10,286,848	0	0
Pupil Deprivation Grant - Looked After Children	874,000		874,000	874,000	0	0
Pupil Deprivation Grant - Strategic Advisor	100,000		100,000	100,000	0	0
<b>Total Expenditure</b>	<b>14,545,085</b>	<b>1,088,843</b>	<b>15,614,028</b>	<b>15,612,410</b>	<b>(1,618)</b>	<b>(994)</b>

Tud. 12

	Revised Budget Quarter 2 £	Adjustments £	Revised Budget Quarter 3 £	Estimated Expenditure £	Over / (Under) Spend Net (Quarter 3) £	Over / (Under) Spend Net (Quarter 2) £
<b>Income</b>						
Core Service Contributions						
- Anglesey Council (10.21%)	(420,135)		(420,135)	(420,135)	0	0
- Gwynedd Council (17.61%)	(724,584)		(724,584)	(724,584)	0	0
- Conwy Council (15.39%)	(633,098)		(633,098)	(633,098)	0	0
- Denbighshire Council (15.22%)	(626,196)		(626,196)	(626,196)	0	0
- Flintshire Council (22.65%)	(931,676)		(931,676)	(931,676)	0	0
- Wrexham Council (18.92%)	(778,420)		(778,420)	(778,420)	0	0
Income from Secondments	(239,070)		(239,070)	(239,070)	0	0
Specific Projects						
Regional Consortia School Improvement Grant	(9,198,005)	(1,088,843)	(10,286,848)	(10,286,848)	0	0
Pupil Deprivation Grant - Looked After Children	(874,000)		(874,000)	(874,000)	0	0
Pupil Deprivation Grant - Strategic Advisor	(100,000)		(100,000)	(100,000)	0	0
<b>Total Income</b>	<b>(14,545,085)</b>	<b>(1,088,843)</b>	<b>(15,614,028)</b>	<b>(15,614,028)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Total Income over Expenditure</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1,618)</b>	<b>(1,618)</b>	<b>(994)</b>
<b>Memorandum -</b>						
<b>The GwE Surplus Fund</b>						
					<b>(271,616)</b>	<b>(271,616)</b>
					<b>(1,618)</b>	<b>(994)</b>
					<b>0</b>	<b>0</b>
					<b>(273,234)</b>	<b>(272,610)</b>
<b>Information Technology Renewal Fund</b>						
					<b>(40,057)</b>	<b>(40,057)</b>
					<b>(15,422)</b>	<b>(15,422)</b>
					<b>0</b>	<b>0</b>
					<b>(55,479)</b>	<b>(55,479)</b>

# Eitem 6

GwE: Cyd-bwyllgor 20/02/19

---



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	20 Chwefror 2019
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb Sylfaenol 2019/20</b>
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno i'r Cydbwyllgor : <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2019/20 (Atodiad 1)</li><li>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2)</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2019/20 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd

## 1. Cyllideb Sylfaenol (“sefyll yn llonydd”)

1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymïadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail “sefyll yn llonydd”), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI.

## **2. Targed Arbedion**

- 2.1 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ar 13 Tachwedd 2018 i gynnwys targed arbedion sy'n cyfateb i leihad o 1% yn nhermau arian, yng nghyfraniadau craidd y 6 awdurdod cyfansoddol. Golygai hyn toriad yn nhermau real o 3.19% ar ôl cynnydd mewn costau.
- 2.2 Gweler ar linell "Arbedion 2019/20 i'w Darganfod" y swm (£116,468), sef y 3.19% uchod.
- 2.3 Gyda'r uchod a'r angen am gynllun parhaol ar gyfer arbedion 2018/19, ynghyd â'r mater yn 3.1 isod mae angen darganfod cyfanswm cronus arbedion o £206,485 ar gyfer 2019/20.

## **3. Cyflenwadau a Gwasanaethau**

- 3.1 Mae'r pennawd yma yn gorwario yn flynyddol am nifer o resymau, ac felly'n amlygu bod y gyllideb yn annigonol i bwrpas. Cynyddir y gyllideb drwy sefydlu llinell arbedion i'w darganfod, er pwrpas amlygu'n broblem hir dymor sydd angen ei ariannu (wedi'i gynnwys yn llinell 2.3 uchod).

## **4. Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol**

- 4.1 Mae'r setliad Llywodraeth Leol 2019/20 yn amlygu bod dim toriad yn nhermau arian i'r elfen Grant Gwella Addysg o'r grant yma, ond oherwydd cynnydd mewn costau mae hyn yn golygu toriad real. Er nid yw gwybodaeth am weddill y grant wedi cyrraedd, sefydlir y gyllideb gerbron ar run sail â'r Grant Gwella Addysg (gan diystyru dyraniadau ychwanegol derbyniwyd yn y flwyddyn Ariannol 2018/19).

4.2 Mae rhan 4.1 yn amlygu her ariannol posib ychwanegol i'r GwE uwchben y hyn amlygir yn 2.3

## **5. Cronfa Tanwariant**

5.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2018/19 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £273,234 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2019.

5.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer pontio unrhyw elfen o'r arbedion i'w darganfod (para 2.3 uchod), os ni all GwE ddarganfod yr holl arbedion yn ystod 2019/20.

### **Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2019/20

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2019/20

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.



CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - CYLLIDEB GwE 2019-20

Tud. 17

	Cyllideb Terfynol 2018/19 £	Addasiad Staff £	Addasiad Chwyddiant £	Targed Arbedion £	Addasiad Cyflenwadau a Gwasanaethau £	Addasiadau Eraill £	Cyllideb Terfynol 2019/20 £
<b>Gwariant</b>							
Gweithwyr							
Cyflogau							
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	957,615		18,286				975,901
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,696,935		79,116				3,776,051
- Staff ar Secoundiad	239,070	(117,050)	0				122,020
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,652,930)		(35,455)				(1,688,385)
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	39,814		1,083				40,897
Adeilad							
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	161,958		4,405				166,363
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(55,000)		(1,496)				(56,496)
Cludiant							
Costau Teithio	128,321		3,490				131,811
Cyflenwadau a Gwasanaethau							
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	31,011		844		41,180	(2,955)	70,080
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	15,422		419				15,841
Ffioedd archwilio	7,832		213			2,955	11,000
Broceru	269,889		7,341				277,230
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd							
Cyfreithiol	5,352		146				5,498
Adnoddau Dynol	9,178		250				9,428
Cyllid	39,690		1,080				40,770
Technoleg Gwybodaeth	43,898		1,194				45,092
Arbedion 2018/19 i'w darganfod	(36,879)		(738)				(37,617)
Arbedion i'w darganfod - cyllideb rhent	(11,000)		(220)				(11,220)
Arbedion i'w darganfod - diffyg cyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau	0				(41,180)		(41,180)
Arbedion 2019/20 i'w darganfod	0			(116,468)			(116,468)
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	463,003		6,945				469,948
Prosiectau Penodol							
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	10,286,848					(1,088,843)	9,198,005
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	874,000						874,000
Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol	100,000						100,000
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>15,614,027</b>	<b>(117,050)</b>	<b>86,903</b>	<b>(116,468)</b>	<b>0</b>	<b>(1,088,843)</b>	<b>14,378,569</b>



Atodiad 2 / Appendix 2

I'w ariannu gan <i>Funded by</i>		Craidd/Core					Arall / Other		Targed Arbedion Savings Target 'Cash' £		
		Cyllideb	Chwyddiant	Targed Arbedion	Addasiadau canran cyfraniad	Is-gyfanswm	Addasiad Model Cenedlaethol	Cyllideb Drafft			
		<i>Budget</i>	<i>Inflation</i>	<i>Savings Target</i>	<i>Contribution proportion adjustment</i>	<i>Sub-total</i>	<i>National Model adjustment</i>	<i>Draft Budget</i>			
		2018/19 £	2.19% £	3.19% £	£	2019/20 £	£	2019/20 £			%
Ynys Môn	<i>Isle of Anglesey</i>	372,853	8,165	-11,894	-370	368,754	47,943	416,697	10.20%	-4,099	
Gwynedd	<i>Gwynedd</i>	643,039	14,083	-20,513	1,021	637,630	82,901	720,531	17.64%	-5,409	
Conwy	<i>Conwy</i>	561,849	12,304	-17,922	-3,212	553,019	71,900	624,919	15.30%	-8,830	
Dinbych	<i>Denbighshire</i>	555,724	12,170	-17,727	1,270	551,437	71,695	623,132	15.26%	-4,287	
Fflint	<i>Flintshire</i>	826,825	18,107	-26,375	2,233	820,790	106,714	927,504	22.71%	-6,035	
Wrecsam	<i>Wrexham</i>	690,816	15,129	-22,037	-942	682,966	88,795	771,761	18.89%	-7,850	
<b>Cyfanswm</b>	<b>Total</b>	<b>3,651,106</b>	<b>79,958</b>	<b>-116,468</b>	<b>0</b>	<b>3,614,596</b>	<b>469,948</b>	<b>4,084,544</b>	<b>100%</b>	<b>-36,510</b>	



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 CHWEFROR 2019

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2018/19 – 2021/22

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

### 2.0 Cefndir ac Ystyriaethau

2.1 Mae'r CATC yn ddogfen drosolwg sy'n adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n amlinellu dull strategol GwE o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol fydd yn wynebu GwE yn y pedair blynedd nesaf. Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau fydd ar gael trwy gyfrwng setliadau Llywodraeth Cymru (LIC) ac ar lwyddiant GwE yn alinio adnoddau â blaenoriaethau ei wasanaeth.

2.2 Mae'r CATC yn amlinellu siâp cyffredinol cyllideb GwE ac yn amlinellu model o'r gofynion ariannol ar gyfer cyflawni lefelau gwasanaeth yn y tymor canolig. Mae hyn yn cynnig fframwaith fel y gall y Cyd-bwyllgor a swyddogion ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

2.3 Bydd y CATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i osod cyllideb flynyddol ac i sicrhau bod anghenion adnoddau GwE am y flwyddyn sydd i ddod yn ddigonol ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau cywir. Mae hefyd

yn caniatáu adnabod gofynion cyllido rhagamcanol y dyfodol yn ddigon buan fel y gellir cynllunio gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r lefelau cyllid disgwylidig.

2.4 Adolygwyd y CATC yn dilyn cytundeb ar y gyllideb graidd ar gyfer 2019/20.

### **3.0 Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r adroddiad a'r gweithredu a nodwyd, fel yr amlinellir yn 5.9

### **4.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau**

4.1 Mae'r CATC yn adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r cynllun yn ddibynnol ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth GwE ac yn gofyn am fonitro manwl ac ystyriaeth er mwyn cyfyngu ar yr effaith.

### **5.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

### **6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

### **7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

7.1 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â Swyddog Cyllid Adran 151 yr awdurdod lletyol, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Prif Weithredwyr, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE er mwyn paratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2018/19 – 2021/22, a cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol a gynhwysir yn amcangyfrifon teg.



Tuag at Ragoriaeth  
Towards Excellence

# CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

2018/19 – 2021/22

## Rheoli Fersiwn

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad
V2.0	04/10/17	Cydbwyllgor GwE
V3.0	21/02/18	Cydbwyllgor GwE
V4.0	20/02/19	Cydbwyllgor GwE

## GwE

### CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG: 2018/19 – 2021/22

#### 1. CEFNDIR

- 1.1. Mae'r ddogfen drosolwg hon yn adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae swyddog adran 151 Gwynedd yn cefnogi ac yn arwain y ddogfen hon.
- 1.2. Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r sefyllfa a bydd, yn benodol, yn galluogi Cyd-bwyllgor a staff GwE i gael dealltwriaeth bellach mewn perthynas â:
  - Modelu senarios
  - Egwyddorion a fabwysiadwyd wrth ddyrannu adnoddau
  - Adnabod hyd a lled heriau/cyfleoedd ariannol
  - Egwyddorion i fynd i'r afael â gwasgfa ariannol.

#### 2. YR ANGEN AM GYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CATC)

- 2.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn (CATC) yn amlinellu dull strategol GwE o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol fydd yn wynebu GwE yn y pedair blynedd nesaf. Mae cyflwyno'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau fydd ar gael trwy gyfrwng setliadau Llywodraeth Cymru (LIC) ac ar lwyddiant GwE yn alinio adnoddau â blaenoriaethau'r gwasanaeth.
- 2.2. CATC yn amlinellu siâp cyffredinol cyllideb GwE ac yn amlinellu model o'r gofynion ariannol ar gyfer cyflwyno lefelau gwasanaeth yn y tymor canolig. Mae hyn yn cynnig fframwaith fel y gall y Cyd-bwyllgor a swyddogion ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.
- 2.3. Bydd y CATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i osod cyllideb flynyddol ac i sicrhau bod anghenion adnoddau GwE am y flwyddyn sydd i ddod yn ddigonol ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau cywir. Mae hefyd yn caniatáu adnabod gofynion cyllido rhagamcanol y dyfodol yn ddigon buan fel y gellir cynllunio gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r lefelau cyllid disgwylidig.
- 2.4. Mae'n ofynnol paratoi cyllideb flynyddol bob blwyddyn. Bydd y CATC yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn fel rhan o gylch blynyddol cynllunio'r gyllideb. Bydd y Cyd-bwyllgor yn cael gwybod am ddatblygiadau i'r CATC yng nghyfarfod blynyddol GwE ym mis Gorffennaf a bydd gwasanaethau yn ystyried costau ac arbedion a/neu opsiynau sy'n cynhyrchu incwm fel rhan o gylch blynyddol cynllunio'r gyllideb.

#### 3. BLAENORIAETHAU AC AMCANION TYMOR CANOLIG GwE:

- 3.1. Bydd y CATC yn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd GwE ac yn cyflwyno blaenoriaethau ac amcanion tymor canolig a hir dymor GwE.
- 3.2. Mae'r dogfennau a ganlyn yn allweddol o ran ddatblygu cyfeiriad GwE yn ystod y cyfnod hwn:



- Ein Gweledigaeth;
- Cynlluniau Busnes a Chynlluniau Gwella;
- Blaenoriaethau Gwasanaeth;
- Cynlluniau gwella ysgol ALL (a elwir yn Atodiadau)
- Cofrestr Risg

3.3 Yn ogystal, mae blaenoriaethau addysg Ysgrifennydd y Cabinet ac agenda Cymwys am Oes Llywodraeth Cymru yn yrwyr polisi a fydd yn dylanwadu ar flaenoriaethau ac amcanion GwE. Bydd angen hefyd i GwE addasu ei flaenoriaethau a'i amcanion i adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth ar lefel genedlaethol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

#### 4. YR HER ARIANNOL

4.1 Mae GwE wedi bod yn weithredol er mis Ebrill 2013 ac, ar y cychwyn, fe wnaed arbedion effeithlonrwydd o £883,000 neu 20% ar draws chwe awdurdod lleol gogledd Cymru o'i gymharu â chostau cyflwyno'r Gwasanaeth cyfatebol blaenorol.

4.2 Er mis Ebrill 2013 mae'r busnes wedi llwyddo yn raddol i gynyddu Adnoddau staffio trwy ailalinio adnoddau cyllideb presennol a defnyddio cyllid grant penodol.

4.3 Gwnaeth GwE arbedion effeithlonrwydd pellach o £131,000 (mewn termau real) neu 3.48% yn 2016/17 trwy ymgorffori adnoddau sy'n bodoli eisoes a rheoli a gweinyddu mentrau gwella ysgol ychwanegol a niferus Llywodraeth Cymru, a ariennir gan grant penodol.

4.4 Ychwanegwyd targed arbedion effeithlonrwydd o £36,880 ar gyfer 2018/19, yn hafal i 1%.

4.5 Ychwanegir targed arbedion effeithlonrwydd pellach o £116,468 ar gyfer 2019/20, yn hafal i doriad arian o 1% (3.19% mewn termau real). Rheolwyd hyn yn y tymor byr trwy leihau nifer staff parahol a secondiadau i GwE a thrwy secondio uwch swyddi i sefydliadau eraill. Y ffigwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yw £206,485.

#### 4.6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru

Bydd cyllid ar gyfer GwE yn gymharol â'r setliad ar gyfer chwe awdurdod lleol gogledd Cymru. Ar adeg llunio'r ddogfen hon, nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigyrau dangosol ar gyfer setliad llywodraeth leol yn 2020/21 a 2021/22.

#### 4.7 Cyllideb sylfaenol GwE:

4.7.1 Yn dilyn, ceir crynodeb o safle cychwynol cyllideb GwE am y pum mlynedd ddiwethaf:

Blwyddyn	2018/19	2017/18 £'000	2016/17 £'000	2015/16 £'000	2014/15 £'000
Gwariant Refeniw Gros	13,135	9,317	10,554	11,394	6,519
Refeniw Incwm	9,021	5,232	6,457	7,238	2,363

<b>Cyfanswm Cyllideb Net Wreiddiol</b>	<b>4,114</b>	<b>4,085</b>	<b>4,097</b>	<b>4,156</b>	<b>4,156</b>
Cronfeydd wrth gefn a ddygir ymlaen	272	739	460	267	762

#### 4.8 Pwysau Ariannol Blynyddol ar GwE:

Mae pwysau ariannol ar GwE bob blwyddyn. Mae'r pwysau hwn yn effaith cronol:

- chwyddiant
- ymrwymadau anochel
- ffrydiau Effeithlonrwydd/Incwm a gynlluniwyd
- cyfraniadau ALL i gyllidebau craidd;
- ailstrwythuro i gyflwyno Blaenoriaethau Cenedlaethol;
- grantiau Llywodraeth Cymru.

#### 4.9 Chwyddiant

Fel arfer adroddir i GwE am y rhain. Dyma'r rhai sydd wedi'u hadnabod am y pedair blynedd sydd i ddod:

<b>Blwyddyn</b>	<b>2019/20 £'000</b>	<b>2019/20 £'000</b>	<b>2020/21 £'000</b>	<b>2021/22 £'000</b>
Chwyddiant Cyflog (@ 2% ar ôl 2017/18)	62	62	62	
Chwyddiant Cyffredinol	10	10	10	

Gosodwyd y chwyddiant cyflog ar gyfer 2017/18 fel rhan o gytundeb 2 flynedd; fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw awgrymiad parthed 2018/19. Gan fod y codiad cyflog chwyddiannol blynyddol wedi'i osod ar 1% yn y blynyddoedd diweddar, heb ystyried y cynnydd mewn costau byw, rhagwelir y bydd elfen o 'ddal i fyny' yn y dyfodol - o'r herwydd, tybir yma y bydd 2% o godiad cyflog chwyddiannol o 2018/19 ymlaen.

#### 4.10 Pwysau anochel:

Mae'r rhain wedi'u hamcangyfrif fel pwysau anochel ar GwE:

- Ailstrwythuro staff 2017/18
- 2018/19 - dim
- 2019/20 - dim
- 2020/21 - dim

#### 4.11 Cronfeydd wrth gefn:

Caiff GwE adroddiadau blynyddol i adolygu'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r adolygiad ar gyfer eleni wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Refeniw Sylfaenol 2017/18. Nid yw bob un o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hymrwymo yn llawn. A chyllid GwE yn symud tuag at fod yn fwy dibynnol ar grantiau LIC, mae hyn yn arbennig yn gwneud sefyllfa GwE yn fwy ansefydlog o ran cynllunio ariannol. Felly, mae angen cronfeydd digonol wrth gefn i helpu GwE i ymdopi ag unrhyw grant diwygiedig, rhagdybiau chwyddiannol ac ansefydlogrwydd o ran cynhyrchu incwm. Mae GwE yn adolygu yn ffurfiol y cronfeydd wrth gefn bob mis Mawrth er sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

#### 4.12 Effeithiau Cronnol

Mae'r tabl a ganlyn yn adnabod effaith cronrol pwysau chwyddiannol ac ymrwymadau anochel yn erbyn gwahanol gyfnodau o ddiffyg ariannol

	2019/20	2020/21			2021/22		
	Cyllideb	Senario Gorau	Achos Ganolog	Senario Gwaethaf	Senario Gorau	Achos Ganolog	Senario Gwaethaf
<b>cyllideb tal blwyddyn blaenorol</b>	£3,001,620	£3,063,567	£3,063,567	£3,063,567	£3,109,521	£3,124,838	£3,140,156
chwyddiant tâl (%)	2.1%	1.5%	2%	2.5%	1.5%	2%	2.5%
chwyddiant tâl (£)	£61,947	£45,954	£61,271	£76,589	£46,643	£62,497	£78,504
ariannu gan awdurdodau (%)	-1.0%	1%	-0.5%	-2%	1%	-0.5%	-2%
ariannu gan awdurdodau (£)	-£36,510	£37,228	-£18,630	-£74,586	£37,852	-£19,019	-£76,450
<b>ardrawiad ar GwE (£)</b>	-£98,457	-£8,726	-£79,902	-£151,175	-£8,791	-£81,516	-£154,954
<b>ardrawiad cynyddol (£)</b>	-£98,457	-£107,183	-£178,359	-£249,632	-£115,973	-£259,875	-£404,586

## 5. GWELEDIGAETH, BLAENORIAETHAU, GWERTHOEDD AC AMCANION Y GWASANAETH:

### 5.1 Gweledigaeth y Gwasanaeth:

Yn ôl ein gweledigaeth, bydd gan GwE:

*Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion.*

## 5.2 Blaenoriaethau'r Gwasanaeth:

### Ein Blaenoriaethau:

- 5.2.1 Safonau** - Sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.
- 5.2.2 Cwricwlwm ac asesu** - sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. - Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.
- 5.2.3 Arweinyddiaeth** - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
- 5.2.4 Lles** - creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.
- 5.2.5 Addysgu** - sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. - Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.
- 5.2.6 Busnes** - Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

## 5.3 Gwerthoedd y Gwasanaeth

### 5.3.1 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion, rydym wedi gosod isafswm disgwyliadau i'n hunain.

Dyma'r disgwyliadau hyn:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda;
- Addysgu da;
- Cael gwared ar amrywiad o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod mewn categorïau statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf; a
- Dyfodol Llwyddiannus ar waith

### **5.3.2 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion, rydym wedi gosod gwerthoedd gwasanaeth a phersonol i'n hunain**

Dyma nhw:

- Ymddiriedaeth;
- Dim tuedd;
- Tegwch;
- Parch at amryfaliaeth;
- Cefnogi a chydweithio;
- Dwyieithrwydd;
- Gwrthrychedd;
- Mynnu safonau uchel;
- Gonestrwydd.

### **5.4 Amcanion y Gwasanaeth**

***Mae GwE wedi gosod cyfres o amcanion i gyflwyno ei flaenoriaethau strategol i alinio â'r CATC. Mae'r amcanion hyn yn troi cynlluniau busnes yn dargedau tymor canolig a thymor hir. Mae hyn hefyd yn caniatáu i'n cynllunio ariannol fynd i'r afael â'r amcanion hyn fel blaenoriaethau.***

### **5.5 Risgiau Gwasanaeth**

Mae gan GwE gofrestr risg gynhwysfawr iawn gaiff ei monitro yn drylwyr pob chwarter gan y:

- Cyd-Bwyllgor;
- Bwrdd Rheoli;
- Uwch Dim Rheoli GwE;

Mae pob tîm o fewn GwE yn dal y Gofrestr yn eu cynllun busnes eu hunain ac yn monitro pob chwarter i roi gwybod i'r Uwch Dîm Rheoli am unrhyw newidiadau angenrheidiol.

### **5.6 Strategaeth ariannol:**

Bydd y Strategaeth Ariannol yn adnabod cynlluniau manwl i alluogi GwE i osod cyllideb gytbwys am y cyfnod a nodir.

I gryfhau'r broses gynllunio ariannol tymor canolig, mae angen cyllidebau dangosol y tu hwnt i un flwyddyn.

## 5.7 Gwerth am Arian

Mae GwE wedi ymrwymo i roi gwerth am arian fel rhan annatod o'i raglen weithredol a'i waith strategol. Mae ganddo gyfrifoldeb penodol i gyflawni Gwerth am Arian o'i ddefnydd o gyllid craidd a chyllid grant. Yn yr yn modd, mae anelu at Werth am Arian yn gyfrifoldeb yr holl staff, nid yn unig y rheini sydd â dyletswyddau ariannol.

Er mwyn bodloni ei ymrwymiad i gyflawni Gwerth am Arian, mae GwE wedi gosod yr amcanion a ganlyn:

- Gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian yn y prosesau rheoli, cynllunio ac adolygu presennol.
- Mabwysiadu arfer dda gydnabyddedig lle bo hyn yn gwneud synnwyr.
- Cynnal astudiaethau Gwerth am Arian mewn meysydd gweithgarwch y nodwyd yn deilwng o adolygiad.
- Meincnodi ein gweithgareddau yn erbyn gweithgareddau a sefydliadau cyffelyb eraill, lle'r ystyrir hyn yn ddefnyddiol.
- Ymateb i gyfleoedd i gyfoethogi economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau.
- Hybu diwylliant o welliant parhaus.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cydnabod eu rhwymedigaeth barhaus i geisio Gwerth am Arian fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae GwE yn cydnabod ei ddyletswydd i gyflawni Gwerth am Arian o'i holl weithgareddau, waeth sut y'u hariennir. Fel y Consortia eraill, mae GwE wedi ymrwymo i geisio economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel rhan o'i raglen weithredol a'i waith strategol. Bydd GwE yn ceisio sicrhau arfer dda a gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian yn ei holl weithgareddau, a chynnal adolygiadau mor aml ag y bo'n briodol er sicrhau bod Gwerth am Arian yn amlwg.

Mae Gwerth am Arian yn derm a ddefnyddir i asesu p'un a yw sefydliad wedi cael y budd gorau neu beidio o'r gwasanaethau y mae'n eu sicrhau a'u darparu, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Gall rhai elfennau fod yn oddrychol, yn anodd eu mesur, yn haniaethol a chael eu camddehongli. Mae

angen crebwyll felly wrth ystyried p'un a gyflawnwyd Gwerth am Arian yn foddhaol neu beidio. Nid yn unig y gwasanaethau sy'n rheoli costau a fesurir, ond ystyrir hefyd ansawdd, cost, defnyddio adnoddau, addasrwydd i bwrpas, amserlenni a bernir p'un a ydynt, gyda'i gilydd, yn cynnig gwerth am arian neu beidio. Mae cyflawni Gwerth am Arian yn cael ei ddisgrifio yn aml yn nhermau'r 'tair E' - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:

- (i) economi - lleihau cost yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd ('gwneud pethau am bris is');
- (ii) effeithlonrwydd - perfformio tasgau gydag ymdrech rhesymol ('gwneud pethau y ffordd gywir'); ac
- (iii) effeithiolrwydd - i ba raddau y bodlonir amcanion ('gwneud y pethau iawn').

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol i sicrhau ei fod yn unol ag amcanion GwE a'i fod yn cwmpasu ei holl weithgareddau.

### **Nodau**

Er mwyn cyflawni Gwerth am Arian da, mae GwE wedi gosod yr amcanion a ganlyn:

- (i) Gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian yn y prosesau rheoli, cynllunio ac adolygu presennol, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau neu weithgareddau sydd â goblygiadau ariannol sylweddol.
- (ii) mabwysiadu arfer dda gydnabyddedig lle bo hyn yn gwneud synnwyr ac o fudd i GwE.
- (iii) cynnal, neu gomisiynu, astudiaethau Gwerth am Arian ar feysydd gweithgarwch y nodwyd i fod yn deilwng o adolygiad.
- (iv) meincnodi gweithgareddau GwE yn erbyn gweithgareddau a sefydliadau cyffelyb eraill lle'r ystyrir hyn yn ddefnyddiol.
- (v) ymateb i gyfleoedd i gyfoethogi economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau;
- (vi) hybu diwylliant o welliant parhaus;
- (vii) Bod yn weithredol wrth ddangos i wylwyr mewnol ac allanol y ceisir Gwerth am Arian ym mhob gweithgaredd;
- (viii) sicrhau bod yr holl staff yn cydnabod eu rhwymedigaeth barhaus i geisio Gwerth am Arian fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd; a
- (ix) gwneud pob ymdrech i gael ein cydnabod gan eraill fel canolfan ragoriaeth wrth fodloni amcanion y Polisi hwn.

### **Gwreiddio egwyddorion Gwerth am Arian**



### *Integreiddio*

- Mae rhaid i Werth am Arian fod yn ran naturiol o'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws GwE. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio neu adolygu gweithgareddau sydd â goblygiadau ariannol sylweddol.
- Fel rhan o wreiddio Gwerth am Arian yn y broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, gofynnir i ddeiliaid Cynllun Busnes gyflwyno adroddiad byr neu astudiaeth achos ar gymhwyso Gwerth am Arian bob blwyddyn yn eu cynlluniau busnes, gan fanylu ar fesurau i wella economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a meintioli unrhyw fudd ariannol.
- Dylai adroddiadau/astudiaethau achos dynnu sylw at weithgareddau presennol sy'n dangos Gwerth am Arian parhaus yn ogystal â gweithgareddau newydd i wella Gwerth am Arian. Bydd rhaid bodloni'r Bwrdd Ansawdd Busnes yr eir i'r afael yn ddigonol â materion Gwerth am Arian a bod y prif feysydd gwariant, gan gynnwys costau staff, yn cael eu craffu yn briodol.
- Mae deiliaid cynllun busnes mewn lle da i adnabod cyfleodd i gyflawni gwell Gwerth am Arian yn eu meysydd cyfrifoldeb. Byddant yn gwybod pa fesurau sy'n debygol o fod yn effeithiol, gyda golwg ar amgylchiadau ac anghenion penodol, a sut i sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad staff.
- Lle bo goblygiadau Gwerth am Arian, bydd y Bwrdd Ansawdd Busnes yn arwain ar hybu rhannu arfer dda ar draws y sefydliad. Mae mabwysiadu arfer dda yn un ffordd o ddangos bod Gwerth am Arian wedi'i geisio a'i gyflawni. Lle bo hyn wedi'i nodi, a'i fod efallai yn berthnasol i ddeiliaid cynllun eraill, cyfathrebir hyn yn briodol.

### *Manteision*

- Mae egwyddorion Gwerth am Arian yn caniatáu cyfleoedd i swyddogion gynnal asesiad cywir o amcanion gweithgaredd yn hytrach na gweithredu ar ragdybiaethau am yr hyn sy'n digwydd ac a gynhyrchir ar hyn o bryd. Bydd hyn yn datblygu i'r eithaf eu cyfle i gyflawni'r amcanion a ddymunir heb wariant ac ymdrech diangen. Dylai asesiad hefyd ddangos bod y gweithgaredd arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion a pholisïau GwE. Lle nad yw hyn yn digwydd, nid yw gweithgaredd yn cyflawni'r amcanion a osodwyd gan GwE.
- Trwy gyfrwng cynllunio sydd wedi'i gofnodi yn briodol a monitro mabwysiadu prosesau agored sydd a wnelo â'r rhai dan sylw, gall staff ddangos, yn gyhoeddus, ymrwymiad i gyflawni priodoldeb yn ogystal â Gwerth am Arian. Mae hyn yn fwyfwy pwysig mewn byd o atebolrwydd a chyfrifoldeb cynyddol, ac yn hanfodol i GwE tra derbynnir cyllid craidd a grantiau. Mae gan GwE gyfrifoldeb i ddangos ei fod yn gweithredu yn onest, yn deg a heb unrhyw ragfarn.
- Mae angen i GwE gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhai cysylltiedig eraill. Trwy fabwysiadu arfer dda a gallu arddangos hyn, lleiheir yn sylweddol y risg o fethu ag adnabod gofynion o'r fath a chydymffurfio â hwy.
- Mae risgiau ynghlwm wrth pob gweithgaredd. Gall ymgorffori egwyddorion rheoli risgiau, sef adnabod, arfarnu a rhoi lliniaru priodol ar waith, gyfrannu at Werth am Arian. Yn aml, nid oes

rheid cynnal asesiad risg llawn ar gyfer pob gweithgaredd, ond gall asesiad risg annigonol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau arwyddocaol, arwain at Werth am Arian gwael.

#### *Dulliau*

- Gellir cyflawni asesiad Gwerth am Arian mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:
  - (i) meincnodi gweithgaredd yn erbyn gweithgareddau cyffelyb mewn mudiadau neu sefydliadau eraill;
  - (ii) defnyddio dangosyddion perfformiad;
  - (iii) cynnal astudiaethau Gwerth am Arian (ar y cyd â Chonsortia eraill o bosib);
  - (iv) ceisio arfer dda gydnabyddedig a'i mabwysiadu, lle y gellir addasu hyn i amgylchiadau GwE;
  - (v) cynnal archwiliadau mewnol; er mai prif bwrpas archwilio mewnol yw asesu'r system reoli fewnol, mae'r archwilwyr mewnol mewn lle da yn aml i asesu Gwerth am Arian a chynnig sylwadau yn y meysydd a adolygir;
  - (vi) cadw dogfennau sy'n dangos sut y cynlluniwyd gweithgaredd i feithrin Gwerth am Arian ynghyd â thystiolaeth o'r arferion da a fabwysiadwyd; ac
  - (vii) archwilio canlyniadau neu ddeilliannau gweithgaredd.

Mae'n glir nad yr unig ffordd o ddangos ymrwymiad i Werth am Arian yw cynnal astudiaethau Gwerth am Arian. Mae arferion rheoli presennol sy'n ceisio ymgorffori egwyddorion Gwerth am Arian a bod yn weithredol wrth hybu diwylliant o welliant parhaus yn ddau ddull arall. Nid yw cynnal astudiaeth Gwerth am Arian ynddo'i hun yn arddangos Gwerth am Arian; mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth ac ar unrhyw weithredu a wneir fel ymateb i'r canfyddiadau

### **5.8 Fframwaith Gwerth am Arian GwE**

#### **"Gwerth da am arian yw'r defnydd gorau o adnoddau i gyflawni'r deilliannau arfaethedig".**

Amcan ein gwaith Gwerth am Arian yw dod i farn glir ar p'un a sicrhawyd gwerth am arian o fewn GwE. Bwriad y fframwaith hwn yw helpu deiliaid cynllun busnes, arweinwyr gweithgaredd a thimau i wneud hyn mewn dull cyson. Mae'n ategu'r cwestiynau sy'n sail i'n diffiniad ni o Werth am Arian (gweler tudalen 4).

Yn ystod y **cam cynllunio**, dylai staff ddilyn Camau 1-3 a amlinellir ar dudalen 2.

Mae Cam 1 yn gofyn iddynt benderfynu ar drefniadau'r amgylchiadau yr ydym yn ceisio eu gwella. Yr ydym ni yn diffinio *gwerth da am arian* fel "y canlyniad gorau posib o wybod beth yw'r cyfyngiadau a fynegir neu a awgrymir." Mae penderfynu ar yr hyn sy'n werth da yn gofyn am grebwyll a dealltwriaeth o beth yw cyfyngiadau rhesymol.

Mae Cam 2 yn gofyn bod y tîm yn sefydlu yn eu crynswth yr adnoddau a gynlluniwyd sy'n berthnasol i wella'r flaenoriaeth;

Mae Cam 3 yn gofyn bod y tîm yn adnabod yr holl gynhyrchion a'r holl ddeilliannau a gynlluniwyd.

Ar derfyn y gwaith, dylai timau ailadrodd Camau 1-3. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gaglwyd dan y tri pennawd yn ystod cyflwyno eu blaenoriaeth, gall timau yn awr ganfod yr hyn a gyflawnwyd - tuag at sefydlu trefniadau gwerth da ac o ran cyflawni deilliannau - a pha adnoddau gafodd eu gwario.

Yna, ar ôl adnabod y perfformiad a gyflawnwyd, dylai staff ddilyn Camu 4-5 ar dudalen 3 a dod i gasgliad, yn enwedig ar:

- p'un a oedd y perfformiad yn well neu'n waeth na'r hyn a gynlluniwyd (cymhariaeth fewnol); a
- sut y mae hyn yn cymharu â meincnodau'r tu hwnt i'r achos penodol hwn mewn amser (cymhariaeth allanol).

Trwy wneud hyn gall staff benderfynu p'un a gyflawnwyd gwerth am arian, a dylent ddatgan eu barn mewn Casgliad Gwerth am Arian clir a chryno.

Ar ôl nodi lle mae'r gwendidau mewn perfformiad a threfniadau, gall timau wedyn wneud argymhellion cadarn ar gyfer gwella gwerth am arian (Cam 6). Dilyniant Camau 1-6 fydd strwythur Crynodeb o Werth am Arian.

## Fframwaith Dadansoddol ar gyfer asesu Gwerth am Arian

**Diffiniad: Gwerth da am arian da yw'r defnydd gwerth da o adnoddau i gyflawni'r deilliannau arfaethedig**

1 Sefydlu beth yw 'gwerth da'	2 Cyfleu graddau'r adnoddau	3 Adnabod deilliannau disgwylidig a gwir ddeilliannau
<p>Sefydlu'r meini prawf ar gyfer asesu perfformiad trwy gytuno ar drefniadau gwerth da ar gyfer craffu'r flaenoriaeth. <b>Diffinnir 'gwerth da' fel "y canlyniad gorau posib o wybod beth yw'r cyfyngiadau a fynegir neu a awgrymir."</b> Mae angen i staff bwysu a mesur pa gyfyngiadau rhesymol sydd angen eu hystyried.</p> <p><b>Cynllunio gwerth da:</b> <i>Bod yn glir am yr hyn a ddeisyfir.</i> Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Menter seiliedig ar dystiolaeth gydag amcanion clir, ac yn seiliedig ar arfer orau/meincnodau priodol, targedau cytunedig ac ati</li><li>• Cynlluniau realistig sy'n ystyried cyfyngiadau ac a ddatblygwyd gyda golwg ar ddealltwriaeth o risgiau</li><li>• Cefnogaeth gan randdeiliaid i'r cynlluniau</li><li>• Adnoddau angenrheidiol mewn lle i gyflwyno yn ôl y bwriad</li><li>• Dealltwriaeth glir o'r hyn ddylai'r costau perthnasol fod</li></ul> <p><b>Gweithredu gwerth da:</b> . Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Meddu ar yr arbenigedd a'r sgiliau rheolaethol priodol</li><li>• Dewis y dull gorau o gyflwyno</li><li>• Osgoi gwneud arbedion camarweiniol</li><li>• Sicrhau arbedion maint trwy waith wedi'i dargedu;</li><li>• Isafswm effaith gynaliadwy'r gweithredu</li><li>• Sefydlu trosglwyddiad risg da a chlir</li></ul> <p><b>Monitro gwerth da:</b> <i>Gallu asesu perfformiad.</i> Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mesuriadau perfformiad clir wedi'u gosod a threfniadau monitro ar waith</li><li>• Systemau rheoli perfformiad cadarn</li><li>• Prosesau arfarnu polisi cadarn ar waith gydag adborth amserol</li><li>• Gallu gwneud newidiadau gweithredol yn sgil adborth</li><li>• Profi gwerth parhaus</li><li>• Methodoleg asesu Gwerth am Arian ar waith</li></ul>	<p>Adnabod yr adnoddau dan sylw - yn y cynlluniau i ddechrau ac, yn ddiweddarach, fel buddiant - gan gynnwys (lle bo'n briodol):</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• costau staff</li><li>• ffrydiau cyllid</li><li>• adeiladau</li><li>• arbedion</li></ul>	<p>Adnabod yr amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir a'r deilliannau (lle bo'n bosib). Mae angen gwneud hyn, i ddechrau, wrth ystyried y cyflawniad arfaethedig ac yna, yn ddiweddarach, wrth ystyried gwir gyflawniad, gan gynnwys (lle bo'n briodol):</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• perfformiad yn erbyn targedau</li><li>• cofnod o gyflwyno (maint ac amseroldeb)</li><li>• costau unedol</li><li>• mesuriadau economi ac effeithlonrwydd</li><li>• ansawdd y gwasanaeth (gan gynnwys cofnod o fodlonrwydd cwsmeriaid)</li><li>• ôl-ffeithiau anffafriol, gwrthnysig neu anfwriadol</li></ul>

4 Sefydlu goblygiadau Gwerth am Arian y lefel perfformiad a nodwyd (cymhariaeth fewnol)

Sefydlu goblygiadau gwerth am arian y perfformiad a nodwyd.

Er enghraifft:

- a yw'r trefniadau sydd mewn lle yn cyd-fynd â threfniadau'r meincnod dewisedig a sefydlwyd yng Ngham 1?
- a oedd y deilliannau a gyflawnwyd yn werth y drafferth, o wybod:
  - graddfa'r gwariant
  - yr ymdrech (a'r cost cyfle)
  - eu cynaliadwyedd, neu fel arall, dros y tymor canolig i'r tymor hir (e.e. a ellir cynnal y perfformiad neu a yw'n agored i ddirywiad?)
  - amseriad buddiannau (tymor byr, canolig neu hir)
  - a yw perfformiad yn awgrymu bod problem parthed Gwerth mewn Arian?

a oedd perfformiad yn well neu'n waeth na'r disgwyl o wybod pa adnoddau a ddefnyddiwyd?

5 Dod i gasgliad cyffredinol am y gwerth am arian a gyflawnwyd gyda'r adnoddau hyn (cymhariaeth allanol)

- a ddefnyddiwyd mwy/lai o adnoddau na'r disgwyl?

Ar ôl adnabod y perfformiad a gyflawnwyd (1-3) a sefydlu sut y mae'n cymharu â'r disgwyl, neu â'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl (4), mae angen cwblhau'r casgliad Gwerth am Arian trwy gymharu perfformiad yn yr achos hwn â meincnodau allanol lle bo'n briodol, megis:

- gweithredu arall (a fyddai gwell Gwerth am Arian wedi'i gyflawni trwy wneud pethau yn wahanol)
- yn erbyn arfer dda safonol a meincnodau mewnol/allanol
- cymharu â blynyddoedd a fu - dadansoddi tuedd
- yn erbyn disgwyliadau rhanddeiliaid

6 Gwneud argymhellion i sicrhau gwelliant mewn deilliannau

- a oedd perfformiad o ran cynhyrchion/deilliannau yn well neu'n waeth na'r disgwyl?

Ar ôl nodi lle mae'r gwendidau mewn perfformiad, mae angen gwneud argymhellion wedi'u costio a'u hamseru ar gyfer y sefydliad neu ar gyfer y system lywodraeth yn fwy eang, a fydd yn gwella'r system gweithredu polisi ac yn arwain at well Gwerth am Arian trwy:


- gywiro gwendidau
- gwella prosesau ac arferion
- lleihau costau
- gwella perfformiad
- sicrhau arbedion
- codi ymwybyddiaeth o fanteision y polisi
- gwella rheoli gwybodaeth
- dod â gweithgareddau neu bolisi i ben lle bo angen
- aildrefnu prosesau ac arferion



Cynllunio  
Chwarter 1

Tud. 39  
Ar ôl gweithredu

Analysis  
stage



## 5.9 Gweithredu a Nodwyd:

- Datblygu Strategaeth Ariannol ar gyfer 2019/20 i 2020/21 gan gynnwys strategaeth ariannol ar gyfer y senario canolig, fel yr amlinellwyd yn adran 4.11. Pe byddai'r senario waethaf yn digwydd, fel yr amlinellir yn 4.11, byddai hyn yn golygu ailymweld ag egwyddorion sylfaenol.
- Cael mynediad i'r holl weithgarwch yn erbyn Blaenoriaethau Gwasanaeth ac Egwyddorion Gweithredu GwE.
- Asesu'r angen am gronfeydd wrth gefn i alluogi GwE i gyflawni yn erbyn ei flaenoriaethau gwasanaeth.
- Datblygu gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn 2021/22
- Adolygu'r CATC fel y daw gwybodaeth berthnasol ar gael i GwE.
- Adolygu'r model gweithredu presennol i sicrhau bod pwyslais clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yng CA4;
- Gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymiad i ddangosydd y dyfodol
- Datblygu eglurder rhwng blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol fel eu bod yn ategu ei gilydd, yn hytrach na chystadlu;
- Adolygu model cefnogi busnes GwE.





## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**20 Chwefror 2019**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Cynllun Busnes Lefel 1 – Adroddiad Monitro Chwarter 3

---

### **1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 3 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor.

### **2.0 Cefndir**

2.1 Mae'r Cynllun Busnes Rhanbarthol yn nodi'r weledigaeth, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

2.2 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

### **3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Ynglwm mae adroddiad Monitro Chwarter 3 o'r Cynllun Busnes Lefel 1.

3.2 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Lefel 1 fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

---

## **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

## **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori â Wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes Lefel 1.

## **9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Monitro Chwarter 3.

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r Cynllun Busnes yma'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae colofn ar ochr dde'r matrices yn cadarnhau be mae'r awdur yn datgan ym mharagraff 5 o'r adroddiad blaen, fod dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r cynllun hwn. Tra bydd yn heriol i weithredu pob agwedd o'r Cynllun Busnes, disgwylir y bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol o fewn ei gyllideb gyfredol.

## 1. Safonau

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 3 - Cynllun Gweithredu Quarter 3 Monitoring - Action Plan	RAG Ch3 / Q3	Monitro Ch3- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 3 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch3 / Q3	Tracio proffil gwariant Ch3 / Tracking expenditure profile Q3
<p><b>SAFONAU</b> - Sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.</p>	<p>Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen.</p>	<p>Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth</p>	Marc B Hughes	Mehefin 2018	EIG13 (Cyfnod Sylfaen Rhaglen gefnogi)	<p>Mae canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen eleni yn dangos gostyngiad cenedlaethol o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm am hyn yw bod deilliannau newydd o'r Fframwaith Asesu CS wedi cael eu defnyddio mewn leithoedd a Mathemateg. Mae llawer o athrawon o dan yr argraff bod disgyblion uwch i gyflawni Deiliant ac mae hwn yn un ffactor sydd wedi arwain at lai o ddisgyblion yn cyflawni Deiliant 5. Mae bron pob un o'r ysgolion a gefnogir yn mynd i'r afael â chamau a nodir gan YCG y CS. Mae mwyafrif o'r ysgolion sydd â pherfformiad wedi gostwng a'r perfformiad yn sylweddol na'r targed wedi'u hadnabod ac yn derbyn cymorth gan yr YCG CS.</p>	Ar drac / On track	<p>Mae'r gostyngiad cenedlaethol hwn yn y canlyniadau yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r rhanbarth. Mae GwE wedi rhagdybio hyn ac wedi canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, a fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd cyflawni deilliannau uwch erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd y Cyfnod Allweddol. Er bod perfformiad wedi gostwng yn rhanbarthol, mae'r gostyngiad yn is na'r gostyngiad cenedlaethol ar ddeiliant disgywliedig (O5+) ac eithrio ILIC(C). Mewn perthynas â'r deiliant uwch na'r disgwyl (O6+), mae'r gostyngiad rhanbarthol yn sylweddol is na'r gostyngiad cenedlaethol ar draws pob ardal. Yn gyffredinol, mae perfformiad deiliant 6+ yn parhau i fod yn gryf. Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i'r amrywiaeth o weithdai hyfforddi cyfnod sylfaen a chyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer UDRh, athrawon a staff cymorth. Mae'r ffaith bod ysgolion wedi codi lefel yr her i ddiwallu gofynion newydd deiliant 6 yn dystiolaeth o hyn. Yn y mwyafrif o ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor yr Hydref, barnwyd bod y ddarpariaeth CS a'r safonau'n dda neu'n well.</p>	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	<p>Cynnal safonau da Cyfnod Allweddol 2 gan wella'r perfformiad yng Nghonwy.</p>	<p>Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill. Cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y DPC.</p>	Marc B Hughes	Mehefin 2018	M5 (Cynllun Llefaredd Cynradd)	<p>Mae canlyniadau CA2 y rhanbarth yn gadarn. Mae perfformiad eleni ar y lefel ddisgywliedig yn cyfateb i'r canlyniadau a gafwyd y llynedd i raddau helaeth ac yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y DPC. Yr unig eithriad yw bod perfformiad y Gymraeg ar y lefel ddisgywliedig ychydig yn is. Mae'n bosibl fod hyn oherwydd bod mwy o ddysgwyr wedi cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefel ddisgywliedig mewn Cymraeg ail iaith wedi cynyddu eto am y bumed flwyddyn. Ar y lefelau uwch, mae perfformiad yn parhau i fod yn gadarn ym mhob pwnc. Cafwyd gwelliant nodedig yng nghanlyniadau Cymraeg ail iaith. Gostyngodd yr amrywiaeth rhwng bechgyn a merched eleni ac mae bellach yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dysgwyr PYD wedi cynnal y canlyniadau a gafwyd y llynedd ar wahân i'r Gymraeg lle y cafwyd llai o ddisgyblion PYD yn llwyddo i gyrraedd y lefelau disgywliedig. Fodd bynnag, cafodd y nifer uchaf erioed o ddisgyblion PYD eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. O gymharu data diwedd Cyfnod Allweddol 2 eleni â data diwedd Cyfnod Sylfaen 2014, mae disgyblion cyfatebol y rhanbarth, ar gyfartaledd, wedi gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.</p>	Ar drac / On track	<p>Mae perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i fod yn gryf ar y lefelau disgywliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae canran uwch o ddysgwyr a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg fel ail iaith wedi cyflawni ar y lefelau disgywliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl.</li> <li>Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i'r rhaglenni hyfforddi amrywiol a ddarparwyd ar Lythrennedd, Rhifedd ac Addysgu. Mae'r ffaith bod perfformiad cryf a chyson yn yr holl bynciau craidd yn dystiolaeth o hyn.</li> <li>Mae cohort CA2 eleni wedi gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn ystod eu cyfnod yn CA2.</li> </ul>	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

Gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 4: • Gwella safonau yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4.	Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+ o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.  Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD ar gyfer L2+ yn codi o 5%.  55% o ysgolion yn perfformio yn unol â neu'n uwch na'r deiliant ar gyfer L2+.  Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A mewn TGAU, neu gyfwerth, o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.  Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth da gyda ffocws ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4.  Gwelliant ym mhroffil canlyniadau arolygiadau ysgolion uwchradd.	Elfyn V Jones	Aug-18	Core	Yn dilyn y newidiadau yn 2016-17, mae anghysondeb sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â deilliannau TGAU. Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod cyfran y graddau A+ i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng 1.2yp i 61.6%.  Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers Haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â Haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau bod y rhagamcanion a'r targedau cywir yn cael eu gosod. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod data ysgolion wedi cael ei ddylanwadu yn sylweddol gan benderfyniadau cofrestrïadau. ae'n anodd dod i unrhyw gasgliad arwyddocaol ar y pwynt hwn o ganlyniad i'r newidiadau mawr i'r cwricwlwm a'r ffiniau graddau, a'r diffyg cymaryddion cenedlaethol.Yr L2+ a'r pynciau craidd yw'r dangosyddion sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau uchod.	Rhannol ar drac / Partly on track	• Yn y Gymraeg, cynnydd o + 0.5% ar berfformiad 2017 - perfformiad 2018 yn 71.1%. Mae mwyafrif yr ysgolion yn y rhanbarth wedi croesi'r trothwy o 70% ar y dangosydd lefel 2. • Yn Saesneg, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a gafodd gymorth dwys oddi wrth fîm Saesneg GwE wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers y llynedd. Mae DPP o ansawdd uchel a gyflwynwyd eleni wedi cael ei ganmol gan benaethiaid adrannau a phenaethiaid. Mae penaethiaid adrannau wedi cael cyfoeth o hyfforddiant o ansawdd uchel i'w cefnogi yn eu rôl. • Mae perfformiad Mathemateg mewn 30 ysgol [55.5%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. Mae perfformiad Mathemateg-Rhifedd 31 ysgol [57.4%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. Mae 32 [59.2%] o ysgolion wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ar gyfer y radd orau o'i gymharu â chanlyniadau 2017, gyda 6 ysgol [1.1%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Llwyddodd 62.8% o ddisgyblion yn y rhanbarth i ennill o leiaf un TGAU mewn gwyddoniaeth yn L2. Mae'r cymorth dan dim Gwyddoniaeth GwE wedi sicrhau cynnydd o 11.8% yn y perfformiad o ddiwedd blwyddyn 10 pan dim ond 51% o ddisgyblion oedd ar y trywydd cywir i gyflawni o leiaf un L2 TGAU mewn gwyddoniaeth. Mae pob ysgol (54) wedi gweld gwelliannau yn dilyn canlyniadau diwedd blwyddyn 10, a 12 ysgol (22%) wedi gweld cynnydd o 20% neu fwy yn eu canlyniadau.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.	Bydd y bwch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS.	Elfyn V Jones / Marc B Hughes	Awst 2018	Craidd / EIG13 (Cyfnod Sylfaen Rhaglen Gefnogi)	CA4 - perfformiad disgyblion PYD [o 760 o ddisgyblion, mae 163 ohonynt yn ddisgyblion AAA] wedi gwella i 27.6% [+ 0.7%] yn y prif ddangosydd [+ 0.8% yn genedlaethol] a'r bwch gyda disgyblion dim PYD wedi'i gau ymhellach o 2.3% i 30.2% [32.3% yn genedlaethol].	Rhannol ar drac / Partly on track	CA4 - o'r 597 disgyblion PYD nad oeddent yn AAA, roedd 33.0% yn llwyddiannus yn y dangosydd L2+ [cynnydd o 1.0% o 2017]. Perfformiad L2 disgyblion PYD hefyd wedi gwella yn y sgor capio 9, mathemateg a mathemateg rhifedd, tra gostyngodd eu perfformiad yn Saesneg 1.0% i 35.4%. CS – nid yw cymariaethau o ddeilliannau'r cyfnod sylfaen â'r flwyddyn flaenorol yn cael eu mesur ar sail gymaradwy, 2018 perfformiad -83.2%.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad mewn Iaith Saesneg	Gwelliant yng nghanlyniadau Iaith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Gaynor Murphy	Awst 2018	EIG15	14 o ysgolion wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers 2017 . O'r 7 ysgol yn y categori cymorth coch, 5 wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers 2017. Cymorth dwys i nifer fach o ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol o ystyried yr hinsawdd sydd ohoni. Craffu ar ddata a rhoi cymorth er mwyn ymateb i anghenion ee: addysgu llafaredd. Aethpwyd i'r afael â gwendidau arholiadau ym mis Hydref a darparwyd hyfforddiant safoni i bob Pennaeth Adran. System tracio rhanbarthol wedi'i datblygu ac yn cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o'r ysgolion. Mae'r ysgolion a adnabuwyd yn gweithio'n agos gyda ni ac yn nodi materion allweddol o ran monitro ac thracio	Rhannol ar drac / Partly on track	Mae perfformiad TGAU Saesneg wedi gostwng yn rhanbarthol eleni o 61.6 (2017) i 56.2% mewn perthynas â graddau A* i C. Mae problemau gyda'r newidiadau i ffiniau graddau CBAC a mynediad at gyfleoedd mynediad cynnar wedi effeithio ar berfformiad Saesneg Iaith ar draws y rhanbarth. Mae angen ymchwilio ymhellach i hyn. Mae perfformiad yn parhau i fod yn broblem mewn perthynas ag adrannau ysgrifennu'r ddau bapur ar hyd a lled Cymru. Mae sgôr gyfartalog yr adrannau ysgrifennu oddeutu hanner y marciau am ansawdd a chywirdeb ysgrifennu'r disgyblion.	Ddim ar drac / Off track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd	Gwelliant yn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Dafydd Gwyn / Delyth Ellis	Awst 2018	EIG15	Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau ar gyfer y radd orau ar draws y siroedd wedi aros yn gyson. Mae'r cyrhaeddiad ar gyfer Rhifedd yn gryfach yn gyffredinol yn ein hysgolion ar draws y rhanbarth. Darlun positif a geir o'r data sy'n bodoli'n gyffredinol, ond mae rhai ysgolion yn peri pryder – yn enwedig lle y mae'r gwahaniaeth rhwng Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd yn sylweddol, neu lle y mae gwahaniaeth sylweddol mewn perfformiad o gymharu â chanlyniadau 2017. Cyfarfod Penaethiaid Adran Mathemateg wedi ei drefnu ar gyfer tymor y gwanwyn (30/01/2019). Taenlen dadansoddi data wedi'i chreu ar ffurf drafft ac wedi ei hanfon i'r ysgolion. Mae ysgolion yn cael cymorth dwys. Cyflwynwyd wedi eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd rhwydwaith a chyfarfod rhanbarthol. Cyfleoedd pellach am ddatblygiad proffesiynol ar gael i bob athro mathemateg yn ystod y fforymau hyn, ac mewn rhai ysgolion lleol.	Ar drac / On track	• Mae perfformiad Mathemateg 30 ysgol [55.5%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Mae perfformiad Mathemateg-Rhifedd 31 ysgol [57.4%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Mae 32 [59.2%] o ysgolion wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ar gyfer y radd orau o'i gymharu â chanlyniadau 2017, gyda 6 ysgol [1.1%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Ymchwilio i adrannau sy'n gweithio'n effeithiol er mwyn rhannu'r arferion gorau ar draws y rhanbarth.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr: • PYD • Bechgyn • MATH	Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD, Bechgyn, MATH) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4	Elfyn V Jones / Marc B Hughes	Awst 2018	M35 (MAT)	CA4 - perfformiad disgyblion PYD [o 760 o ddisgyblion, mae 163 ohonynt yn ddisgyblion AAA] wedi gwella i 27.6% [+ 0.7%] yn y prif dangosydd [+ 0.8% yn genedlaethol] a'r bwch gyda disgyblion dim PYD wedi'i gau 2.3% i 30.2% [32.3% yn genedlaethol]. Yn Saesneg, gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol ar Lefel 6+ o 2.7%, ac mae'n adlewyrchu'r ffocws rhanbarthol ar herio dysgwyr mwy abl a thalentog yn CA3..	Rhannol ar drac / Partly on track	CA4 - o'r 597 disgyblion PYD, roedd 33.0% yn llwyddiannus yn y dangosydd L2+ [cynnydd o 1.0% o 2017]. Perfformiad L2 disgyblion PYD hefyd wedi gwella yn y sgor capio 9, mathemateg a mathemateg rhifedd, tra gostyngodd eu perfformiad yn Saesneg 1.0% i 35.4%. Mae gwella perfformiad disgyblion PYD a grwpiau o ddisgyblion mewn ALL unigol ac ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
--	---	-------------------------------	-----------	-----------	---	-----------------------------------	---	-----------------------------------	---

## 2. CWRICWLWM AC ASESU:

### AG1 - Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

### AG4 - Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 3 - Cynllun Gweithredu Quarter 3 Monitoring - Action Plan	RAG Ch3 / Q3	Monitro Ch3- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 3 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch3 / Q3	Tracio proffil gwariant Ch3 / Tracking expenditure profile Q3
CWRICWLWM AC ASESU - Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.	Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm a'r asesu yn y Cyfnod Sylfaen.	Mae gan bob ysgol gynradd weithdrefnau cwricwlwm ac asesu priodol ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.	Marc B Hughes	Tymor yr Haf 2018	EIG13 (Cyfnod Sylfaen Rhaglen gefnogi)	Gweithdai hyfforddi a chyfarfodydd rhwydwaith wedi eu cynnal ystod y chwarter hwn ar gyfer yr uwch dimau rheoli, athrawon a chymorthyddion - ffocws y gweithdai wedi bod ar ddatblygu iaith fyneigiannol sy'n arwain at ysgrifennu estynedig ar draws pob maes dysgu a darpariaeth oddi mewn i addysgeg CS effeithiol a defnydd o TGCh/FCD. Mae ffocws t cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer y chwarter hwn wedi bod ar lesiant a chyflawni'r canlyniadau uwch yn PSD drwy ddarpariaeth effeithiol. Cafwyd presenoldeb da iawn yn yr holl weithdai a chyfarfodydd rhwydwaith ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae pecynnau adnoddau wedi cael eu huwchlwytho ar G6 a HWB. Bydd yr YCG yn monitro effaith ar ddarpariaeth a chanlyniadau drwy ymweliadau ysgol.	Ar drac / On track	Bydd YCG yn trafod cywirdeb yr asesiad gwaelodlin a chynnydd disgyblion unigol o fewn y CS yn ystod tymor yr Hydref. Yn y mwyafrif o ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor yr Hydref, barnwyd bod safonau'r CS, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.	Mae gan bob ysgol uwchradd gwricwlwm priodol ar waith yng Ngyfnod Allweddol 4 i wella perfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol.	Paul Mathews-Jones	Tymor yr Haf 2019	M17 (Ehangu effaith a dyfnder gweithio ar y cyd)	Drwy fforymau cwricwlwm lleol rhannwyd arfer da a thrwy chyfarfod rhanbarthol i rannu rhagor o enghreifftiau. Mae'r cyfarfod / cynhadledd rhanbarthol wedi'i rhaglennu ar gyfer mis Mawrth (i'w gadarnhau). Mae'r gefnogaeth gan grwpiau lleol yn uchel a nodwyd awgrymiadau ar gyfer yr agenda a chymorth wedi'i dargedu. Mae dwy ysgol wedi derbyn cefnogaeth o ran amserlennu. Mae pob cyfarfod lleol wedi derbyn cymorth CiG drwy gyflwyniadau gan aelod o dîm CiG GwE. Cafwyd derbyniad da iawn.	Ar drac / On track	Mae ysgolion mewn gwell sefyllfa i arfarnu Maes arolygu 3.2 a 3.3 yn gywir. ydd ysgolion risg uchel yn cael cymorth yn ôl yr amserlen. Bydd cyfarfod cwricwlwm rhanbarthol yn cael ei gynnal am y tro cyntaf - llawer o gefnogaeth ar hyn o bryd. Parhau i asio cymorth cwricwlwm persennol gyda'r agenda ddiwygio ehangach yn benodol CiG.	Ar drac / On track	Tanwariant rhwng 10-15% / Underspend between 10-15%
	Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.	Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau.  Yr un ysgol i'w barnu yn anfodddhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.	Paul Mathews-Jones	Medi 2018	Craidd / EIG5 (Blaenoriaethau Rhanbarthol)	Mae ymchwil academaidd wedi cael ei gomisiynu gan Brifysgol Warwick, Prifysgol Bangor a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru i greu offeryn dadansoddi aml-lefel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am gymorth ac mae adolygiad o system ddadansoddi Llywodraeth yr Alban wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf 2018 ar ymweliad i Gaeredin. Mae arfarniad o'r ymweliad wedi'i gyflwyno i'r UDA. Fframwaith prosiect wedi'i gytuno a protocol rhannu data wedi ei drafod a'i sefydlu.	Ar drac / On track		Ar y gweill / Pending	Gwariant ar drac / Expenditure on track

Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Safon A.	Gwelliant yng nghanlyniadau Safon A ac UG, yn unol â thargedau ac i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dangosyddion allweddol.	Martyn Froggett	Ebrill 2019	M30 (Lefel A)	Mae'r model ar gyfer Cyfnod Allweddol 5 yn amrywio o fewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Rhoddir y ddarpariaeth gan naill ai ysgolion unigol, colegau 6ed dosbarth, colegau addysg bellach neu ysgolion (a cholegau) yn cydweithio o fewn y consortiwm. Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau A2 yn y rhanbarth yn 2018 o 434 ers 2017 (4563 i gyd), sy'n adlewyrchu poblogaeth llai mewn ysgolion. Mae'r data nas wiriwyd yn awgrymu bod perfformiad rhanbarthol lefel A yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (data ysgolion yn unig). Mae canlyniadau wedi cael eu hadolygu gyda'r ysgolion rhanbarthol ac mae cynnydd bellach yn rhan fwy rheolaidd o drafodaethau ysgolion. Mae <i>Alps Connect</i> yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn tua hanner o ysgolion rhanbarthol er mwyn monitro perfformiad ac i osod targedau. Hyfforddiant ALPs i'w gynnal ym mis Ionawr 23/24. Mae hyfforddiant <i>Alps Connect</i> wedi ei gynnal gyda nifer o ysgolion yn rhanbarthol hefyd. Mae cymorth i ysgolion unigol wedi digwydd mewn rhai amgylchiadau. Bydd y gynhadledd yn canolbwyntio'n gryf ar strategaethau ymyrryd effeithiol. Mae fforymau rhanbarthol wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnal. Mae digwyddiadau-megis cynhadledd gyda siaradwyr Estyn a gweithdai dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn cynyddu ymwybyddiaeth leol o faterion cenedlaethol.	Ar drac / On track	Mae'r gwaith craffu cychwynnol ar ganlyniadau (CBAC yn unig) yn awgrymu'n fras: <ul style="list-style-type: none"> <li>cynnydd yn A2 ond nid mor fawr â'r cynnydd ar draws Cymru yn gyffredinol - rydym ar y blaen yn rhanbarthol o ran Cymru o ran A *-E ond y tu ôl ar fesurau eraill (A *- C, A *- A). Ar lefel A2, mae'r bwch rhwng ysgolion GwE a gweddill Cymru yn llai nag yr oedd yn 2017.</li> <li>mae % y disgyblion a gyflawnodd dair gradd A */A wedi cynyddu ar draws y rhanbarth ond nid gymaint â'r cynnydd cenedlaethol.</li> <li>Mae % y disgyblion sy'n cyflawni tri gradd A *-C wedi gwella ar draws y rhanbarth.</li> <li>Nid yw data ar berfformiad y Tystysgrif Her Sgiliau ar gael eto.</li> <li>Bydd gwybodaeth drwy'r mesurau perfformiad ôl-16 newydd, gan gynnwys data gwerth ychwanegol ar gyfer pob ysgol, yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae gwybodaeth gwerth ychwanegol consortiwm, sy'n deillio o ddata nas dilyswyd a gyflwynir i ALPs, yn awgrymu cynnydd calonogol ar draws y rhanbarth.</li> <li>ar lefel UG cynyddodd canlyniadau ar bob ffin gradd (A*/A, A *-B, A *-C a A *-E) o gymharu â 2017. Er bod y perfformiad yn is na Chymru ar y cyfan, ar bob ffin uwchlaw A *- C, roedd cyfradd y cynnydd ar draws y rhanbarth yn uwch na'r gyfradd ledled Cymru yn ei chyfanrwydd (graddau A */A wedi codi 2.6% yn erbyn cynnydd cenedlaethol o 1.3%, er enghraifft).</li> </ul>	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Cyflawni Cwricwlwm i Gymru - codi ymwybyddiaeth o'r Pedwar Diben o fewn CiG a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm.	Mae pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Cwricwlwm effeithiol seiliedig ar sgiliau ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.	Ruth Thackery	Parhaus	M22 (Grant Arloesi)	Mae'r Tîm CiG yn parhau i gyd-weithio a chefnogi gwaith yr ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r dysgu proffesiynol a fydd yn dilyn o ganlyniad. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a chymau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol. Bydd aelodau'r tîm Cynradd, Uwchradd a Cwricwlwm i Gymru yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn. Mae arweinwyr clwstrw'r wedi dechrau ar eu gwaith ac maent mewn cyswllt â'r tîm CiG o ran cynllunio ac ennyn diddordeb clystyrau. Mae'r tîm CiG yn monitro ac yn cefnogi clystyrau wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae pob hwylusydd clwstrw'r wedi cael hyfforddiant ar ddatblygiadau diweddar i'w rannu â phob ysgol yn y clwstrw'r.	Ar drac / On track	Mae gwaith diwygio Cwricwlwm i Gymru yn parhau ar draws y rhanbarth, ac yn defnyddio strwythurau rhwydweithiau clwstrw'r. Mae pob un o'r rhwydweithiau clwstrw'r, 53 i gyd, yn parhau i gyfarfod ac mae'r daith diwygio Cwricwlwm i Gymru yn eitem reolaidd ar yr agenda ar gyfer diweddariadau. Mae'r YCG yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd ac maent yn allweddol o ran caniatáu sianeli clir o gyfathrebu dwyffordd i rannu ac adrodd negeseuon cyson. Cytunwyd mewn egwyddor ar bob un o'r cynigion ar gyfer y 53 clwstrw'r ar gyfer y camau nesaf i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r cwricwlwm ac mae'r meini prawf llwyddiant yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>amcanion tryloyw i wella deilliannau dysgwyr</li> <li>Nifer gynyddol o staff yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd y cwricwlwm</li> <li>Nifer gynyddol o holl staff yr ysgol yn gweithio ar y cyd</li> <li>Cynyddu nifer y cyfleoedd i gynllunio a pharatoi ar gyfer y continwrm dysgu o 3-16</li> <li>Rhoi cyfleoedd i athrawon fyfyrion a bod yn arloesol gyda dulliau pedagogaidd. Mae cyllid llawn wedi'i ddyrannu i gefnogi hyn a bydd YCG yn cefnogi.</li> </ul>	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

### 3. ARWEINYDDIAETH:

#### AG2 - Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 3 - Cynllun Gweithredu Quarter 3 Monitoring - Action Plan	RAG Ch3 / Q3	Monitro Ch3- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 3 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch3 / Q3	Tracio proffil gwariant Ch3 / Tracking expenditure profile Q3
-----------------------------	------------------------------	--	-------------------------------	------------------------------	--	--	--------------	--	--------------	---



<p><b>ARWEINYDDIAETH - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddsbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.</b></p>	<p>Datblygu a gwella ymhellach ansawdd uwch arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Mae gan 85% o Uwch Dimau Arwain brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.</p> <p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion a osodir mewn Categoriâu Statudol Estyn.</p> <p>Dim ysgol i'w rhoi mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl.</p> <p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion mewn Adolygu gan Estyn.</p> <p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion sy'n cael gradd D yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio.</p> <p>Cynnydd o 25% yn nifer yr ysgolion uwchradd a chynradd sy'n cael gradd A yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio.</p>	<p>Pam McClean / David Edwards</p>	<p>Parhaus</p>	<p>M31 / M32 (Arweinyddiaeth Rhwydweithiau Proffesiynol a Phenaeithiad Newydd)</p>	<p>Mae GwE yn darparu ystod o raglenni, o rai ar gyfer darpar uwch arweinwyr i rai ar gyfer penaethiaid profiadol, yn unol â'r Llwybr Datblygu Gyrfa Cenedlaethol. Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol i ysgol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella ar draws gogledd Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr arweiniol o bob ALI yn rhanbarth GwE er mwyn sefydlu pa ddarpariaeth a gynigir gan GwE. 69 o ymgeiswyr CPCP i fynychu'r diwrnod datblygu yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar 14 Ionawr 2019. Mynchoedd penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal i gynhadledd undydd yn Abertawe ym mis Tachwedd 2019. Cynhelir ail ddiwrnod ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal yn y rhanbarth yn Llandudno ar 24 Ionawr 2019. Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar ddulliau arwain trawsnewidiol, gwasgaredig a chydweithredol, gyda mewnbwn ar ymchwil ar arddulliau arwain gan Brifysgol Bangor. Cynhaliwyd cynhadledd ar ddysgu proffesiynol ym Mhrifysgol Bangor ym mis Tachwedd ar gyfer penaethiaid o bob rhan o'r rhanbarth. Darparwyd hyfforddiant G6 ychwanegol i benaeithiaid nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiynau gwybodaeth cychwynnol. Cynhelir cynhadledd ar gyfer prifathrawon o bob rhan o'r rhanbarth ar 22 Ionawr 22 2019 yn Llandudno.</p>	<p>Ar drac / On track</p>	<p>Ymgeiswyr addas wedi derbyn y wybodaeth berthnasol ac wedi ymgeisio erbyn y dyddiad cau. Penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal wedi mynychu cynhadledd genedlaethol gyda'r prif siaradwr yn ysgogi ac yn ysbrydoli. Bydd ganddynt hefyd y cyfle i ddatblygu eu harbenigedd arweinyddol. Mae penaethiaid o bob rhan o'r rhanbarth wedi gallu cael mynediad i gynadleddau a gweithdai sy'n codi eu hymwybyddiaeth o flaenoriaethau cenedlaethol ac i ddatblygu eu harbenigedd mewn arweinyddiaeth.</p>	<p>Ar drac / On track</p>	<p>Gwariant ar drac / Expenditure on track</p>
	<p>Datblygu a gwella ymhellach ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Mae gan 85% o Dimau Arweinyddiaeth Ganol brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.</p>	<p>Ian Kelly</p>	<p>Parhaus</p>	<p>M3 (Arweinyddiaeth)</p>	<p>Hysbysebwyd y RhDAG drwy Cynnig Proffesiynol GwE a'r Bwletin. YCG wedi annog eu hysgolion cyswllt i adnabod ymgeiswyr posibl ar gyfer y rhaglen. Bu Grŵp Arweinyddiaeth GwE yn monitro'r niferoedd, gan dargedu ysgolion uwchradd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd ble roedd nifer yr ymgeiswyr yn isel. Sefyllfa bresennol - 59 o ymgeiswyr cyfrwng Saesneg a 25 o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg wedi cofrestru, Dechreuodd yr hyfforddiant ar 8 Hydref 2018, gyda'r ail ddiwrnod ar 9 Hydref 2018, Cychwynnodd carfan 9 ar 16 Hydref 2018, gydag ail ddiwrnod ar 17 Hydref 2018. Diweddarodd tîm arweinyddiaeth GwE y wybodaeth a anfonwyd at ymgeiswyr er mwyn amlygu rôl fonitro'r YCG.</p>	<p>Ar drac / On track</p>	<p>Mae trafodaethau gyda'r darparwyr yn dangos bod gweithdai yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y cyfranogwyr o arweinyddiaeth mewn ysgolion.</p>	<p>Ar drac / On track</p>	<p>Gwariant ar drac / Expenditure on track</p>
<p>Cefnogi'r UDA i gyflawni Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.</p>	<p>Pob ysgol yn y rhanbarth ar y llwybr iawn i gyflawni Cwricwlwm i Gymru.</p>	<p>Pob ysgol yn y rhanbarth ar y llwybr iawn i gyflawni Cwricwlwm i Gymru.</p>	<p>Ruth Thackray</p>	<p>Parhaus</p>	<p>M22 (Grant Arloesi)</p>	<p>O fewn strategaeth Cwricwlwm i Gymru, mae cysylltiadau clir â'r timau Cynradd ac Uwchradd presennol. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a champau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol. Bydd aelodau'r tîm Cynradd, Uwchradd a Cwricwlwm i Gymru yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn.</p>	<p>Ar drac / On track</p>	<p>Mae GwE yn parhau i gefnogi UDA, gyda'r Tim yn meddu ar ystod o brofiadau. Un o rolau allweddol y tîm yw gweithio gydag a chefnogi'r holl ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r dysgu proffesiynol a fydd yn dilyn o ganlyniad.</p>	<p>Ar drac / On track</p>	<p>Gwariant ar drac / Expenditure on track</p>
<p>Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Iaith Saesneg</li> <li>• Cymraeg</li> <li>• Mathemateg</li> <li>• Gwyddoniaeth</li> </ul>	<p>Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.</p> <p>Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd.</p>	<p>Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.</p> <p>Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd.</p>	<p>Gaynor Murphy Catrin Jones Dafydd Gwyn Nicola Jones</p>	<p>Parhaus</p>	<p>M12 (NNEST)</p>	<p>Mae pob PA pynciau craidd yn cael arweiniad a chefnogaeth ar agweddau allweddol, a hynny yn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae ymweliadau ag ysgolion yn darparu cefnogaeth i arweinwyr. System dracio i'r pynciau craidd yn cael ei ddefnyddio i adnabod arweinwyr canol sydd angen cefnogaeth. Bydd angen mewnbwn gan YCG ysgolion unigol. Mae'r manylion ynglŷn â'r gefnogaeth ar gyfer pob adran yn y cynlluniau cefnogaeth unigol. Mae cynllun gweithredu a chynllun busnes clir yn ei lle.</p>	<p>Rhannol ar drac / Partly on track</p>	<p>Rhy fuan i fesur effaith. Cynnig cyfarfodydd rhwydwaith lleol i gefnogi ymhellach wrth i'r newidiadau cwricwlaidd ddatblygu dros y tymhorau nesaf.</p>	<p>Ar y gweill / Pending</p>	<p>Gwariant ar drac / Expenditure on track</p>

Datblygu Darpar Benaethiaid / Uwch Arweinwyr	Rhaglen ar gyfer Darpar Benaethiaid ar waith. 50 o unigolion wedi'u hadnabod ac wedi cwblhau'r rhaglen.  25% o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi ymgeisio am swyddi UDA neu wedi cael dyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn.  Arfarniad cadarnhaol gan ysgolion a chan arfarnwr allanol ar effaith y rhaglen ar unigolion.	Ian Kelly	Parhaus	M3 (Arweinyddiaeth)	Hysbysebwyd y RhDADB yn y Cynnig Proffesiynol a'r Bwletin. Gwahoddwyd arweinwyr canol profiadol i wneud cais. 56 o ymgeiswyr o bob rhan o'r rhanbarth wedi mynychu'r rhaglen ddatblygu. Bydd diwrnod 3 yn cael ei gynnal ar 23 a 24 Ionawr 2019 yn Llanelwy	Ar drac / On track	Mae gwerthusiadau yn dilyn y gweithdai yn dangos bod yr holl gyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ystod o sgiliau arwain sydd eu hangen i fod yn bennaeth effeithiol.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
--	--	-----------	---------	---------------------	---	--------------------	---	--------------------	---

#### 4. LLES

### AG3 - Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 3 - Cynllun Gweithredu Quarter 3 Monitoring - Action Plan	RAG Ch3 / Q3	Monitro Ch3- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 3 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch3 / Q3	Tracio proffil gwariant Ch3 / Tracking expenditure profile Q3
LLES - Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fydd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.	Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.	Gweithredu'r strategaeth ar draws y rhanbarth.  Dull cydweithrediadol ac effeithiol ar gyfer cyflawni agenda genedlaethol gyffredin gyda rolau a chyfrifoldebau clir i'r holl bartneriaethau.  Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r holl asiantaethau allweddol sy'n cefnogi'r agenda i sicrhau effaith gadarnhaol ar bob dysgwr.  Ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol.	Sharon Williams	Tachwedd - Rhagfyr 2018.	PMG / GDD	Cynllun cymorth GDD clir a chadarn wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Trafodaethau pellach i'w cynnal gyda Bwrdd Rheoli GwE. Cynllun Gweithredu a Chynllun Busnes clir yn ei le.	Rhannol ar drac / Partly on track	Cyfarfodydd GDD unigol gydag ysgolion yn Wrecsam/Sir y Fflint i drafod cyflwyno'r strategaeth grant amddifadedd disgyblion a'r lefel o gymorth sydd ei hangen. Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r YCG i drafod lefel cefnogaeth i ysgolion a chynllun gweithredu. Wedi dadansoddi'r canlyniadau TGAU crynodol cychwynnol ar gyfer 2018 ar draws y rhanbarth er mwyn adnabod ysgolion/ALI sydd angen cymorth ychwanegol. Ysgolion wedi eu hadnabod i ddatblygu astudiaethau achos o arfer dda. Prosiect peilot ymyrraeth llythrennedd yn cael ei gynnal gan dargedu 3 ysgol uwchradd yn Wrecsam ac yn gweithio gyda'r YCG Saesneg. YCG wedi casglu gwybodaeth o ran effaith y grant amddifadedd disgyblion a'r defnydd ohono ym mhob un o'r ysgolion. Gwybodaeth wedi ei gofnodi ar G6 gan ysgolion. Awdit wedi ei gwblhau i fonitro a yw ysgolion yn cyhoeddi gwariant a'u defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion ar wefan ysgol/GwE. Mae cynllun gweithredu wedi'i gynhyrchu o ran y camau nesaf.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

#### 5. ADDYSGU

### AG1 - Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 3 - Cynllun Gweithredu Quarter 3 Monitoring - Action Plan	RAG Ch3 / Q3	Monitro Ch3- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 3 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch3 / Q3	Tracio proffil gwariant Ch3 / Tracking expenditure profile Q3
-----------------------------	------------------------------	--	-------------------------------	------------------------------	--	--	--------------	--	--------------	---



ADDYSGU - Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar addysgu a chyflawniad yn hollbwysig.	Gwella a chryfhau rôl arweinwyr wrth arwain y dysgu a'r addysgu.	Mae gan bob UDA ac AC mewn ysgolion y sgiliau angenrheidiol a dealltwriaeth o addysgu da ac eithriadol er mwyn cynnig arweiniad a hyfforddiant yn eu hysgolion.  Mae addysgu effeithiol ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.  Cyflawnir disgwyliadau Estyn, hynny yw, bod 85% neu fwy o wersi yn dda neu well, gan 85% o ysgolion ar draws y rhanbarth.  Cynnydd cyffredinol o 5% mewn barnau da neu well ar gyfer y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol a arolygir gan Estyn.	Stella Gruffydd / Bethan James	Tachwedd 2018	M40 (AagD)	Mae GwE yn cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r rhaglenni OTP a ITP ar draws y rhanbarth. Mae 14 o athrawon o 4 ysgol uwchradd wedi cwblhau'r rhaglen OTP. Bydd ail raglen yn cael ei chynnal y tymor nesaf. Mae'r gwaith hwn yn datblygu cynladwyedd ysgolion i wella'u hunain a chefnogi rhwydweithio ysgol i ysgol.	Ar drac / On track	Adborth cadarnhaol o'r hyfforddiant a'i effaith ar addysgu mewn ysgolion.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	Gwella ansawdd yr addysgu a'r profiadau i bob dysgwr.	Cymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion risg uchel lle mae materion allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu (i'w gadarnhau).  Mae safonau addysgu yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o Brosiect Asesu Ffurfiannol ac Addysgeg, dan arweiniad timau ymchwil weithredu Shirley Clarke mewn ysgolion, yn gyson dda neu well, gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar Haen 1 yn arddangos arfer ragorol. Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion sy'n cymryd rhan yn cadarnhau hyn.	Stella Gruffydd / Bethan James	Tachwedd 2018	M40 (AagD)	Mae cydweithio effeithiol ar y gweill rhwng y rhanbarth a'r ymarferydd addysg adnabyddus, Shirley Clarke. Mae 27 o ysgolion wedi ei dewis ar draws y rhanbarth i gydweithio fel timau ymchwil gweithredol dan arweiniad Shirley Clarke. Ysgolion Haen 1 wedi cwblhau eu hadolygiadau tymhorol a'r diwrnodau arddangos i ysgolion Haen 2 gyda Shirley Clarke ar 15 a 16 Tachwedd 2018. Roedd y diwrnodau'n llwyddiannus iawn. Erbyn hyn mae Haen 2 dymor i mewn i'w hymchwil weithredol. Bydd cyfarfodydd adolygu Haen 1 ym mis Ionawr 2019. Adolygiadau mewn ysgolion unigol i'w cynnal yn Chwefror 2019 gyda YCG. Mae Tim o YCG wedi ei sefydlu ac ar waith i gefnogi'r ysgolion wrth eu gwaith yn 2018-19.	Ar drac / On track	Haen 1 wedi eu paratoi ar gyfer eu rôl arweiniol yn 2018-19. Dyddiadau yn eu lle ar gyfer gweithgarwch y flwyddyn rhwng ysgolion Haen 1 a 2. Mae unigolion o ysgolion Haen 1 yn arweinwyr dysgu effeithiol yn eu hysgolion a thu hwnt. Gwybodaeth am gynnydd ac effaith ymchwil ysgolion Haen 1 a gwaith cychwynnol ysgolion Haen 2 i'w dadansoddi yn ystod yr hanner tymor hwn.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

## 6. Busnes

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol / Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 3 - Cynllun Gweithredu Quarter 3 Monitoring - Action Plan	RAG Ch3 / Q3	Monitro Ch3 - Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 3 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch3 / Q3	Tracio proffil gwariant Ch3 / Tracking expenditure profile Q3
BUSNES - Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.	Ymgorffori'r G6 ar draws y rhanbarth a pharhau i ddatblygu defnydd effeithiol o'r system i hwyluso cydweithio a rhannu arferion llwyddiannus.	Gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu.  Ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, Swyddogion yr ALL ac ysgolion.	Llyr G Jones	Mehefin 2018	M36 (G6)	Rhaglen ychwanegol o hyfforddiant Hwyluswyr G6 wedi ei gynllunio ar gyfer y sector uwchradd. Mae'r hyfforddiant yn targedu aelodau allweddol o staff megis yr uwch dîm arwain, rheolwyr data a chydlynwyr ADY. Mae modiwl ADY Cymru bellach yn weithredol er mwyn i bob ysgol gwblhau awdit cychwynnol. Bydd y gynhadledd ranbarthol ar 22 Ionawr yn amlygu hyn. Grŵp rhanddeiliaid bellach yn weithredol a bydd yn treialu mynediad i lywodraethwyr y tymor hwn. Gwaith yn mynd rhagddo o ran datblygu gwaith dadansoddi. Mae'r set helaeth o ddogfennau canllaw i'r system yn y llyfrgell adnoddau wedi cael ei ddiweddarau yn ystod y chwarter. Bwriedir cynnal cymorthfeydd pellach ar gyfer GwE a defnyddwyr yr ysgol. Gwelliannau i 'Cynnig GwE' i'w ryddhau ym mis Ionawr o ganlyniad uniongyrchol i adborth defnyddwyr. Gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys dogfennau atodol fel dystiolaeth. Hyn hefyd o ganlyniad i adborth gan ddefnyddwyr. Mae 15 o astudiaethau achos newydd wedi'u cyhoeddi yn yr Arferion Llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.	Ar drac / On track	Mae angen i'r defnydd o'r system ymsefydlu'n llawn er mwyn mesur yr effaith ar reoli perfformiad gwasanaethau. Adborth gan grwpiau rhanddeiliaid cynradd ac uwchradd wedi ei rannu gyda'r datblygwyr. Grŵp hefyd yn rhoi adborth gweithredol ar y system. Bydd 15 o astudiaethau achos ychwanegol wedi'u cyhoeddi ar G6 erbyn diwedd Ionawr. Gwaith wedi ei wneud i sicrhau bod holl ddefnyddwyr GwE yn annog ysgolion i gyflwyno astudiaethau achos. Mae ysgolion bellach yn gwneud defnydd llawn o Cynnig GwE i archebu a chofnodi eu DPP. Gwybodaeth amser real am ysgolion ar gael i ddefnyddwyr GwE. Mae datblygwyr bellach yn gweithio ar system dadansoddi fydd yn caniatáu defnydd effeithiol o ddata'r system. Mae llawer o ysgolion bellach yn mynd ati i ddefnyddio'r cerrig milltir yn y modiwlau CiG ac ADY Cymru i archwilio'r ddarpariaeth bresennol ac i gynllunio'r camau nesaf. Bydd sicrhau ansawdd adroddiadau y system yn cael ei hwyluso gan y gyfres ddadansoddi.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

Cynnal arolwg iechyd sefydliadol	Anelu at berfformiad yn chwarter uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.	Susan O Jones	Mawrth 2019	Craidd		Ar y gweill / Pending		Ar y gweill / Pending	
Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth efo LIC a OECD	Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.	Rhys H Hughes	Parhaus	Craidd	<p>Mae GwE yn parhau i weithio gyda'r OECD ar ddatblygu'r Consortia a'r AauLI fel sefydliadau sy'n dysgu. Rhennir unrhyw beth a ddysgir o'r gwaith hwn gyda rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.</p> <p>Mae ysgolion Dysgu Proffesiynol wedi bod yn gweithio ar ddatblygu amrywiaeth o astudiaethau peilot. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda'r OECD ar 7 dimensiwn yr Ysgol fel Sefydliad Dysgu, y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Dysgu Digidol a hefyd ar dreialu'r Safonau Addysgu Proffesiynol.</p> <p>Mae GwE yn parhau i weithio gydag ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac yn rhannu profiadau o cydweithio ar ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd a'r Safonau Arweinyddiaeth newydd.</p> <p>Mae holl staff GwE wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol ar godi ymwybyddiaeth o ysgolion fel sefydliadau dysgu. Mae pob un o'r staff wedi derbyn cyflwyniad arfer da gan y rhai sy'n llwyddo yn y gynhadledd YCG genedlaethol.</p> <p>50 o ysgolion wedi'u henwi fel YSD ac maent bellach yn 'hyrwyddwyr' ar gyfer uwchsgilio pob ysgol yng Ngogledd Cymru. YCG sydd yn arwain ar hyn ar gyfer GwE wedi derbyn astudiaethau achos gan dros 40 o ysgolion a fydd yn cael eu coladu i enghreifftio arfer da i'r YCG.</p>	Ar drac / On track	Mae ymwybyddiaeth dda gan YCG. Mae'r ymwybyddiaeth o ysgolion yn datblygu'n dda, gydag ysgolion YSD y rhanbarth yn dangos arfer dda. Bydd canllawiau ar gyfer YCG yn parhau.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth.	Cefnogi gwerthuso ymyriadau sydd eisoes yn bodoli a hwyluso ymchwil parhaus sydd wedi'i hanelu at wella safonau a chanlyniadau lles ddisgyblion y presennol a'r dyfodol.	Rhys H Hughes	Parhaus	M21 (Ymchwil a Gwerthusiad ar y cyd)	<p>Mae GwE yn parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae "Sefydliad cydweithredol ar gyfer Ymchwil, tystiolaeth ac effaith (CIEREI)" rhwng GwE a Prifysgol Bangor yn golygu bod dau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sefydlu systemau gwerthuso effeithiol yn ein sefydliad. Mae'r cydweithio'n golygu edrych ar ddatblygu ymchwil weithredol o ran elfennau lles, a hefyd ymchwilio i elfennau effeithiol o arweinyddiaeth.</p> <p>Mae Prifysgol Bangor a GwE hefyd yn gweithio'n effeithiol ar hyrwyddo strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn gwella canlyniadau, er enghraifft, prosiect NorthWORTS-SP gydag Ysgol seicoleg ac addysg Prifysgol Bangor.</p>	Ar drac / On track	Mae GwE wedi cydweithio'n agos â CIEREI i roi cymorth effeithiol ar ddatblygu ymarfer ymchwil ar gyfer ystod o ysgolion ac ymgynghorwyr penodol ar draws y rhanbarth. Mae'r cydweithio wedi mapio ymchwil a dulliau a thystiolaeth yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr wedi defnyddio'r 'map' hwn i gyfoethogi eu hymagweddau at lythrennedd ar draws y cwricwlwm, pynciau STEM, gwella adborth a chynyddu lefel yr her mewn gwersi.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 Chwefror 2019

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Pwnc:** Cynllun Busnes 2019-2020 - Blaenoriaethau Rhanbarthol

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r blaenoriaethau drafft rhanbarthol ar gyfer 2019-2020 i'r Cyd-bwyllgor eu cymeradwyo.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Fel yr amlinellir yn Atodiad 1, mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd ag *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru), ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
  2. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
  3. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
  4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.
  5. Cwricwlwm trawsnewidiol
-

## 6. Busnes

### 3.2 Mae'r prif flaenoriaethau gwella wedi eu hadnabod fel a ganlyn:

- Gwella perfformiad yn y sector uwchradd :
  - Gwella systemau tracio ac asesu
  - Grymuso cyfundrefnau atebolrwydd a rheoli
  - Cael gwared ag amrywiad mewn ysgol
  - Datblygu ymhellach prosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynllunio ar gyfer gwella
  - Arweinyddiaeth Ganol
- Cwricwlwm Trawsnewidiol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Lles
- Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
- Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth
- Dysgu ac Addysgu – Prosiect Rhanbarthol Shirley Clarke – Asesu Ffurfiannol
- Model Ymgysylltu â chymheiriaid
- Ail strwythuro'r gwasanaeth

3.3. Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

3.4 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn gosod allan y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain ar Lefel 1, a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli yw eu cyflawni, fel y swyddogion atebol. Yn y pen draw, mae'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

3.5 Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 blynyddol yn eistedd o dan y cynllun Lefel 1, ac ynddynt mae gwybodaeth fanylach ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn rhoi manylion ynghylch y camau gweithredu, yr allbynnau a'r meini

prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes ar lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd, ac yn cynnig strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

3.6 Adroddir am gynnydd yn erbyn y cynllun busnes bob chwarter mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r blaenoriaethau rhanbarthol diwygiedig ar gyfer 2019-20.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Bu Bwrdd Rheoli GwE yn greiddiol wrth ddatblygu'r blaenoriaethau.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - (Drafft) Amcanion Strategol a Blaenoriaethau Rhanbarthol

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r awdur yn datgan ym mharagraff 5 bydd dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r adroddiad hwn, felly disgwylir y bydd GwE yn gweithredu'r cynllun i adlewyrchu'r blaenoriaethau o fewn ei gyllideb gyfredol.



## AMCANION STRATEGOL 2019-20

**1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel**

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.

**2: Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau**

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles**

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella**

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn. Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn meddu ar y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu'n barhaus a gwella eu hymarfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei potensial

**5: Cwricwlwm Trawsnewidiol**

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial.

**6: Busnes**

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.





## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 Chwefror 2019

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cofrestr Risg GwE

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

### 2.0 Cefndir

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau; diweddarwyd cyfanswm o 9 risg (Risgiau 2, 5, 6, 8, 12, 13, 14, 15, 17). Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch.

3.3 Awgrymir felly diwygio'r risgiau a nodir yn 3.2 fel a ganlyn:

---

Rhif Risg	Risg a Nodwyd	Gweithgareddau Presennol / Lliniaru	Camau Gweithredu y Dyfodol
2	Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir. Mae oediadau sylweddol o ran cadarnhau y lefelau cyllido yn effeithio ar weithrediad y Cynllun Busnes strategol.	Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Cynllun cyllideb tymor canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwaith modelu ariannol yn cael ei wneud i lywio penderfyniadau.	Gweithio'n agos gyda Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn achlysurol. Ymgysylltu gyda swyddogion LIC, aelodau Cabinet addysg a phenaethiaid addysg yr awdurdodau, i geisio cael gwell eglurder a sicrwydd o ran arian grant penodol. Trafodaethau i'w cynnal yng nghyfarfod Bwrdd Rheoli GwE.
5	Mae sgop sylweddol Trawsnewid Addysg mewn lle i gynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, ddim yn cael eu cynnwys a'u gweithredu yn llwyddiannus. Ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben o fewn Cwricwlwm i Gymru a datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygiadau'r cwricwlwm yn gyfyngedig ac yn creu ansicrwydd yn yr ysgolion. Newidiadau Cwricwlwm a chymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion	Arweinwyr portffolio YCG hefyd mewn swydd. Gweithgaredd ymgysylltu sylweddol wedi'i chynnal ac ar y gweill. Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid. Mae pob clwstwr ar draws y rhanbarth wedi penodi 1 arweinydd clwstwr CiG Y 17/18 ac mae hyn wedi codi i 2 hwylusydd bob clwstwr ar gyfer 18/19. Mae hyfforddiant rheolaidd wedi cymryd lle ar egwyddorion ac i gefnogi rheoli newid. Mae GwE wedi cymeryd ymagwedd fwriadol i integreiddio holl agweddau'r newid ac mae sesiynau YCG misol yn cymryd lle i hysbysu, trafod a chytuno ar y camau nesaf o ran yr agweddau amrywiol. Mae adnoddau yn cael eu rhannu drwy G6 ac YCG yn gweithio gydag ysgolion arloesi a chlystyrau i ddatblygu ystod o adnoddau i gefnogi ysgolion ac i godi ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm newydd. Holl gynllunio GwE yn croesgyfeirio at 4 diben y Cwricwlwm. Rheolwr Prosiect yn ymwneud a'r Rhaglen	Cefnogir Arweinwyr Clwstwr CiG yn agos yn unol â'u cynllun clwstwr unigol, ac mae'r holl glystyrau wedi derbyn y gwahoddiad i fidio ar gyfer cyllid i gefnogi eu camau nesaf. Mae criteria llwyddiant yn cynnwys ymwybyddiaeth uwch o'r Cwricwlwm newydd ymhlith yr holl staff, mwy o gyfleoedd i gynllunio ar draws y continiwm 3-16 a mwy o gyfleoedd i ysgolion gydweithio. Mae gan GwE yn parhau i gael 5 aelod o staff sy'n rhan o ddatblygu gwaith arweiniol ar y MDaPh i roi mewnbwn ac adborth rheolaidd. Mae G6 yn parhau i gynnig cerryg milltir bob tymor i ysgolion ar Cwricwlwm i Gymru ac hefyd diwygio ADY i gefnogi gweithgareddau a

		<p>Drawsnewid wedi ei phenodi, yn benodol yn ymwneud efo'r Gymraeg ac ADY. Mae'r Rheolwr Cyfathrebu a Rheoli Prosiectau, sydd mewn swydd ers Awst 2018, yn cynorthwyo gyda'r rhaglen Cwricwlwm i Gymru.</p>	<p>chynlluniau'r ysgolion. Mae grwp traws ranbarthol dysgu proffesiynol yn datblygu pwl o adnoddau a all mynd atyn nhw yn ddigidol i gefnogi diwygio'r cwricwlwm a gweithio'n agos gyda'r grwp traws ranbarthol Arweinyddiaeth er mwyn hysbysu'r rhaglenni datblygiadol arweinyddiaeth fel ag y bo'n briodol. Ymgysylltu gyda'r holl Benaethiaid mewn cyfres o digwyddiadau rhanbarthol ar gyfer Penaethiaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r daith ddiwygio ehangach ac i alluogi trafodaeth ar gyfer ysgolion a chlystyrau er mwyn adnabod eu anghenion datblygu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn i ddod yng nghyd destun y rhaglen ddiwygio bresennol - ffocws cychwynnol ar ADY, cwricwlwm ac ymgysylltu rhwng cyfoedion</p>
6	<p>Anawsterau recriwtio Penaethiaid ar draws y rhanbarth/Recriwtio arweinyddiaeth o safon ar bob lefel.</p>	<p>Cyflwyno Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth sy'n datblygu sgiliau arweinyddiaeth ymarferwyr mewn cyd-destynau penodol ar draws pob carreg filltir o'r llwybr dysgu proffesiynol. Y rhaglenni i gynnwys CPCP a rhaglenni darpar arweinwyr a phrifathrawon. Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE yn parhau i fod yn effeithiol (Cohort 9 ar waith). Rhaglen Ddatblygu Darpar Brifathrawon yn weithredol. (Dau gohort</p>	<p>Cydweithio gyda'r AGGA a'r Grwp Arweinyddiaeth Consortia Rhanbarthol ar sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel.</p>

		<p>llwyddiannus wedi cwblhau'r rhaglen hyd yn hyn). Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol CPCP yn weithredol. (Y nifer uchaf erioed o ymgeiswyr yn GwE). Mae'r rhaglen genedlaethol wedi ei gymeradwyo gan AGGA ar gyfer Penaethiaid Newydd / mewn Gofal yn weithredol. Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth gyntaf ar gyfer Penaethiaid Profiadol wedi ei basio i'r AGGA i'w gymeradwyo. Ymgyrch #DarganfodAddysgu ar waith. Nifer uwch o ymarferwyr yn ymgeisio am amrywiaeth o leoliadau arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.</p>	
8	<p>Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol</p>	<p>Adolygu strwythur atebolrwydd a phrosesau rheoli perfformiad. Mae'r GGA bellach yn rhan o'r GGYR.</p>	<p>Adolygiad yn cymryd lle gan Lywodraeth Cymru.</p>
12	<p>Nid oes gan lywodraethwyr y wybodaeth na'r sgiliau angenrheidiol i weithredu fel cyfeillion beirniadol.</p>	<p>Adolygu strwythur atebolrwydd a rolau'r rhwydweithiau rhanbarthol. Cynllun Busnes Lefel 3 ar waith. Arweinydd Portffolio GwE i Lywodraethwyr bellach mewn swydd. Offeryn Hunan Arfarnu i Lywodraethwyr bellach ar y we, ac yn cael ei gyflwyno. Hyfforddiant 'Ffrind Beirniadol' ar gael ac yn cael ei gynnig i ysgolion unigol neu glwstwr o ysgolion fel bo'r angen. Mae trefniadau yn eu lle i roi arweiniad 'Cyrff Llywodraethu Effeithiol' ar safwe llywodraethwyr Cynnal ar ran y 6 awdurdod. (Hyn yn cael ei drefnu gan y Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr ym hob awdurdod). Mae Astudiaethau Achos CLL effeithiol ar G6, ond angen mwy o enghreifftiau.</p>	<p>Dwy gynhadledd wedi ei drefnu i holl aelodau cyrff llywodraethu ar 'sut I fod yn gyfaill beirniadol' ynghyd â chyflwyniadau i ysgolion.</p>

		Cyfarfod hiw efo'r SCLI i gyflwyno rhaglen gefnogaeth GwE i lywodraethwyr ar y daith ddiwygio a bydd hyn wedyn yn eu helpu i fod yn ffrind beirniadol mwy effeithiol.	
13	Nid yw'r cyfeiriad strategol yn adlewyrchu barn Plant a Phobl Ifanc y rhanbarth	Darparu cyfleoedd i Ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner i arddangos arferion Llais y Disgybl - 15% o Ysgolion Arloesi wedi arddangos gwaith lle mae Llais y Disgybl wedi bod yn nodweddiadol.	Gweithredu'r gweithrediadau o fewn Cynllun Busnes Cwricwlwm i Gymru o ran Llais y Disgybl. Bydd gwell cyfle i wneud hyn wedi i'r Cwricwlwm drafft ddod i law.
14	Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol yn CA4. Mae perfformiad disgyblion MAT mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol.	Ailstrwythurwyd rolau allweddol yn GwE a phenodwyd Uwch Arweinydd Uwchradd i arwain tîm uwchradd rhanbarthol a gweithredu model cefnogaeth a her a model cefnogi cyfoedion. Adolygwyd strwythurau atebolwydd a'u cryfhau ar lefel rhanbarthol a lleol. Canlyniad hyn yw bod mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth a mwy o atebolwydd gweithredol o fewn y gwasanaeth, ac ar draws yr AauLl. Proffil rhanbarthol uwchradd Estyn wedi gwella'n sylweddol.	Parhau i weithredu ac arfarnu'r model uwchradd newydd. Sicrhau atebolwydd cadarn ar lefel rhanbarthol a lleol. Erys pryderon am effaith llawn y gwaith ar ganlyniadau CA4 2018. Ansefydlogrwydd yn y tîm uwchradd yn parhau - yn dal yn rhy ddibynol ar secondiadau tymor byr a chyfraniadau gan ymgynghorwyr annibynnol.
15	Cyfradd gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn arafach na hwnnw ar lefel genedlaethol.	Cynnig pecyn cefnogaeth i bob awdurdod, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a darpariaeth dda, a disgwyliadau a safonau uchel yn y CS. Adnabod ysgolion sy'n perfformio'n gyson isel a'r rheiny mewn perygl. Targedu cynhaliaeth i'r ysgolion hyn a chlystyrau o ysgolion. Cytundeb gan yr holl ALL i gynyddu'r capasiti o fewn GwE i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen - 1 Ymgynghorydd Her mewn swydd o Fedi 2017 a 2 yn rhagor o fis Ionawr 2018 i fonitro perfformiad ysgolion unigol a'u	Parhau i fonitro perfformiad ysgolion unigol, a thargedu ysgolion risg uchel. Darparu rhaglen gefnogi Cyfnod Sylfaen Ranbarthol drwy Weithdai Rhanbarthol a cyfarfodydd Rhwydweithio i'r holl ysgolion. Rhaglen yn cael ei weithredu drwy dargedu arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau.

		targeddu fel y bo angen. Cynhaliwyd cyfres o weithdai cymedroli CS.	
17	Rhoi ysgolion uwchradd mewn categori Statudol Estyn.	<ul style="list-style-type: none"><li>• nifer o ysgolion mewn categori statudol wedi cynyddu i 7 ysgol uwchradd.</li><li>• Mae rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth dwys iawn yn weithredol yn yr ysgolion hyn a chaiff cynnydd ei fonitro gan yr YCG cyswllt. Ble dyrchefir pryderon, rhennir yr wybodaeth gyda swyddogion yr ALL trwy gyfrwng y Byrddau Ansawdd.</li></ul>	Sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol yn cael sylw cadarn mewn cynlluniau cefnogaeth. Sicrhau bod AauL yn gweithredu'n gadarn ac yn syth mewn ysgolion ble rhannwyd pryderon am gyflymder y cynnydd.

Dilynwyd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol.

Matrics Risg					
<b>Tebygolrwydd</b>	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		<b>Isel</b>	<b>Canolig</b>	<b>Uchel</b>	<b>Hynod uchel</b>
<b>Effaith</b>					

#### 4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.
- 4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

#### 5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

#### 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Mae Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel y bo'n briodol.

## **9.0 Atodiadau**

### **9.1 Cofrestr Risg GwE**

---

#### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

##### **Swyddog Monitro:**

Mae sistem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol ac yn rhan o gyfrifoldebau y Cyd-Bwyllgor. O ystyried y proffil risg a amlygir yn y tabl mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

##### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Bydd Adran Gyllid Cyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth i Reolwr Gyfarwyddwr GwE ynghylch risgiau cyllidol. Cyflwynir unrhyw sylwadau pellach ar risgiau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar y 20<sup>fed</sup> o Chwefror.



RHIF RISG	RHANBARTH OL neu LEOL	CRYNODEB	BLAENORIAE TH GWE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRWYDD RISG	EFFAITH RISG	TEBYGOLRWYDD X EFFAITH	GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU	RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL	TEBYGOLRWYDD X EFFAITH	PERCHENNOG RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
1	Rh	Cyllidol	I GYD	Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.	U	U	2A	Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb.	U	2B	RhG / RhB	Gweithio'n agos gyda Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn achlysurol. Ymgynghori gyda phrif swyddogion yr awdurdodau o ran effaith unrhyw doriadau ariannol potensial.
Tud. 65	Rh	Cyllidol / Busnes	I GYD	Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir. <b>Mae oediadau sylweddol o ran cadarnhau y lefelau cyllido yn effeithio ar weithrediad y Cynllun Busnes strategol.</b>	U	U	2A	Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Cynllun cyllideb tymor canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwaith modelu ariannol yn cael ei wneud i lywio penderfyniadau.	U	2B	RhG / RhB / Bwrdd Rheoli	Gweithio'n agos gyda Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn achlysurol. Ymgysylltu gyda swyddogion LIC, aelodau Cabinet addysg a phenaethiaid addysg yr awdurdodau, i geisio cael gwell eglurder a sicrwydd o ran arian grant penodol. Trafodaethau i'w cynnal yng nghyfarfod Bwrdd Rheoli GwE.
	4	Rh	Safonau	B1/B2	Anawsterau recriwtio gweithlu addysgu cymwys o ansawdd uchel o fewn ysgolion yn y rhanbarth, sy'n cael effaith ar safonau ym mhob pwnc megis Saesneg a mathemateg.	U	U	2A	Ymgynghorwyd Her pynciol mewn swydd gyda Chynlluniau Busnes Lefel 3 cyfatebol ar gyfer gweithredu'r ymgyrch recriwtio #DarganfodAddysgu ar waith. Gwaith ar y gweill i wella'r ddarpariaeth AGA ar draws y rhanbarth - Partneriaeth Addysg Athrawon Gogledd Cymru.	C	2C	RhG / CC

5	Rh	Safonau	B1/B2	Mae sgop sylweddol Trawsnewid Addysg mewn lle i gynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, ddim yn cael eu cynnwys a'u gweithredu yn llwyddiannus. Ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben o fewn Cwricwlwm i Gymru a datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygiadau'r cwricwlwm yn gyfyngedig ac yn creu ansicrwydd yn yr ysgolion. Newidiadau Cwricwlwm a chymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion	U	U	2A	Arweinwyr portffolio YCG hefyd mewn swydd. Gweithgaredd ymgysylltu sylweddol wedi'i chynnal ac ar y gweill. Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid. Mae pob clwstrwr ar draws y rhanbarth wedi penodi 1 arweinydd clwstrwr CIG Y 17/18 ac mae hyn wedi codi i 2 hwylusydd bob clwstrwr ar gyfer 18/19. Mae hyfforddiant rheolaidd wedi cymryd lle ar egwyddorion ac i gefnogi rheoli newid. Mae GwE wedi cymeryd ymagwedd furiadol i integreiddio holl agweddau'r newid ac mae sesiynau YCG misol yn cymryd lle i hysbysu, trafod a chytuno ar y camau nesaf o ran yr agweddau amrywiol. Mae adnoddau yn cael eu rhannu drwy G6 ac YCG yn gweithio gydag ysgolion arloesi a chlystyrau i ddatblygu ystod o adnoddau i gefnogi ysgolion ac i godi ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm newydd. Holl gynllunio GwE yn croesgyfeirio at 4 diben y Cwricwlwm. Rheolwr Prosiect yn ymwneud a'r Rhaglen Drawsnewid wedi ei phenodi, yn benodol yn ymwneud efo'r Gymraeg ac ADY. Mae'r Rheolwr Cyfathrebu a Rheoli Prosiectau, sydd mewn swydd ers Awst 2018, yn cynorthwyo gyda'r rhaglen Cwricwlwm i Gymru.	C	2C	UDA	Cefnogir Arweinwyr Clwstrwr CIG yn agos yn unol â'u cynllun clwstrwr unigol, ac mae'r holl glystyrau wedi derbyn y gwahoddiad i fidio ar gyfer cyllid i gefnogi eu camau nesaf. Mae criteria llwyddiant yn cynnwys ymwybyddiaeth uwch o'r Cwricwlwm newydd mhllith yr holl staff, mwy o gyfleoedd i gynllunio ar draws y continiwm 3-16 a mwy o gyfleoedd i ysgolion gydwethio. Mae GwE yn parhau i gael 5 aelod o staff sy'n rhan o ddatblygu gwaith arweiniol ar yr AOIE i roi mewnbnw ac ardorth rheolaidd. Mae G6 yn parhau i gynnig cerryg milltir bob tymor i ysgolion ar Cwricwlwm i Gymru ac hefyd diwygio ADY i gefnogi gweithgareddau a chynlluniau'r ysgolion. Mae grwp traws ranbarthol dysgu proffesiynol yn datblygu pwl o adnoddau a all mynd atyn nhw yn ddigidol i gefnogi diwygio'r cwricwlwm a gweithio'n agos gyda'r grwp traws ranbarthol Arweinyddiaeth er mwyn hysbysu'r rhaglenni datblyguadol arweinyddiaeth fel ag y bo'n briodol. Ymgysylltu gyda'r holl Benaethiaid mewn cyfres o digwyddiadau rhanbarthol ar gyfer Penaethiaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r daith ddiwygio ehangach ac i alluogi trafodaeth ar gyfer ysgolion a chlystyrau er mwyn adnabod eu anghenion datblygu proffesiynol ar gyfer y flwyddyn i ddod yng nghyd destun y rhaglen ddiwygio bresennol - ffocws cychwynnol ar ADY, cwricwlwm ac ymgysylltu rhwng cyfoedion
Tud. 66	Rh	Safonau	B3	Anawsterau recriwtio Penaethiaid ar draws y rhanbarth/Recriwtio arweinyddiaeth o safon ar bob lefel.	C	C	2C	Cyflwyno Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth sy'n datblygu sgiliau arweinyddiaeth ymarferwyr mewn cyd-destynau penodol ar draws pob carreg filltir o'r llwybr dysgu proffesiynol. Y rhaglenni i gynnwys CPCP a rhaglenni darpar arweinwyr a phrifathrawon. Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE yn parhau i fod yn effeithiol (Cohort 9 ar waith). Rhaglen Ddatblygu Darpar Brifathrawon yn weithredol. (Dau gohort llwyddiannus wedi cwblhau'r rhaglen hyd yn hyn). Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol CPCP yn weithredol. (Y nifer uchaf erioed o ymgeiswyr yn GwE). Mae'r rhaglen genedlaethol wedi ei gymeradwyo gan AGGA ar gyfer Penaethiaid Newydd / mewn Gofal yn weithredol. Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth gyntaf ar gyfer Penaethiaid Profiadol wedi ei basio i'r AGGA i'w gymeradwyo. Ymglych #DarganfodAddysgu ar waith. Nifer uwch o ymarferwyr yn ymgeisio am amrywiaeth o leoliadau arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.	Canolig / Isel	2D	RhG / CC	Cydweithio gyda'r AGGA a'r Grwp Arweinyddiaeth Consortia Rhanbarthol ar sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel.
7	Rh	Safonau	I GYD	Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau.	U	U	2A	Is-grŵp Cyllid yn gweithio gydag ysgolion i leihau effaith. Mae'r effaith hefyd yn cael ei liniaru gan yr arian ychwanegol i ysgolion i ddatblygu'r Cwricwlwm newydd dros 2 flynedd.	C/U	2B / 2C	All	
8	Rh	Busnes	I GYD	Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol	U	U	2A	Adolygu strwythur atebolrwydd a phrosesau rheoli perfformiad. Mae'r GGA bellach yn rhan o'r GGYR.	U	2B	Bwrdd Rheoli	Adolygiad yn cymryd lle gan Lywodraeth Cymru.

	Rh	Llywodraethu/ Safonau	B6	Ansicrwydd am gyfeiriad elfennau o fewn y Model Cenedlaethol yn y dyfodol.	C	C	3A	Aros am adolygiad gan Lywodraeth Cymru. Adolygiad o'r strwythur atebolrwydd a rheoli perfformiad mewn lle. Gwasanaeth wedi ei ail-strwythuro a model arweinyddiaeth ddsoranedig ar waith - yn sicrhau bod y gwasanaeth yn fwy parod i addasu pan fydd newid.	C	3B	Bwrdd Rheoli	Gweithredu a rheoli unrhyw newid yn llawn.
	Rh	Llywodraethu	B6	Gall newidiadau yn arweinyddiaeth yr awdurdodau effeithio ar y gefnogaeth weidyddol neu gorfforaethol	C	C	3A	Mae dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau'r holl awdurdodau a GwE dros gyfeiriad strategol y rhanbarth. Darparu sesiynau briffio a chyfarfodydd i rannu gwybodaeth yn gyson gydag aelodau newydd (yn ogystal â'r cyfarfodydd Cyd-bwyllgor ffurfiol).	C	3B	CA / RhG	Parhau i sicrhau bod llwybrau cyfathrebu yn glir a thryloyw.
	Rh	Safonau	B1/B4	Nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad Disgyblion PYD.	C	C	3A	Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol mewn swydd. Adolygiad o'r GDD wedi ei gwblhau a chynllun gweithredu ar waith. Cydlynnydd Rhanbarthol GDD Plant mewn Gofal wedi ei phenodi	C	3B	YLIRh	Gweithredu'r camau o fewn y cynllun busnes a monitro cynnydd drwy gyfrwng y strwythur rheoli perfformiad newydd.
Tud. 67	Rh	Busnes	B1/B3	Nid oes gan lywodraethwyr y wybodaeth na'r sgiliau angenrheidiol i weithredu fel cyfeillion beirniadol.	U	U	2B	Adolygu strwythur atebolrwydd a rolau'r rhwydweithiau rhanbarthol. Cynllun Busnes Lefel 3 ar waith. Arweinydd Portffolio GwE i Lywodraethwyr bellach mewn swydd. Offeryn Hunan Arfarnu i Lywodraethwyr bellach ar y we, ac yn cael ei gyflwyno. <b>Hyfforddiant 'Ffrind Beirniadol' ar gael ac yn cael ei gynig i ysgolion unigol neu glwstwr o ysgolion fel bo'r angen.</b> <b>Mae trefniadau yn eu lle i roi arweiniad 'Cyrrff Llywodraethu Effeithiol' ar safwe llywodraethwyr Cynnal ar ran y 6 awdurdod. (Hyn yn cael ei drefnu gan y Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr ym hob awdurdod).</b> <b>Mae Astudiaethau Achos CLL effeithiol ar G6, ond angen mwy o enghreifftiau.</b> <b>Cyfarfod hiw efo'r SCLL i gyflwyno rhaglen gefnogaeth GwE i lywodraethwyr ar y daith ddiwygio a bydd hyn wedyn yn eu helpu i fod yn ffrind beirniadol mwy effeithiol.</b>	C	2C	Bwrdd Rheoli	Dwy gynhadledd wedi ei drefnu i holl aelodau cyrrff llywodraethu ar 'sut i fod yn gyfaill beirniadol' ynghyd â chyflwyniadau i ysgolion.
	Rh	I GYD	I GYD	Nid yw'r cyfeiriad strategol yn adlewyrchu barn Plant a Phobl Ifanc y rhanbarth	C	I	4D	Darparu cyfleoedd i Ysgolion Arloesi ac ysgolion Partner i arddangos arferion Llais y Disgybl - 15% o Ysgolion Arloesi wedi arddangos gwaith lle mae Llais y Disgybl wedi bod yn nodweddiadol.	I	4E	RhG	<b>Gweithredu'r gweithrediadau o fewn Cynllun Busnes Cwricwlwm i Gymru o ran Llais y Disgybl. Bydd gwell cyfle i wneud hyn wedi i'r Cwricwlwm drafft ddod i law.</b>
	Rh	Safonau	B1	Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol yn CA4. Mae perfformiad disgyblion MAT mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol.	U	C/U	2A	Ailstrwythurwyd rolau allweddol yn GwE a phenodwyd Uwch Arweinydd Uwchradd i arwain tîm uwchradd rhanbarthol a gweithredu model cefnogaeth a her a <b>model cefnogi cyfoedion</b> . Adolygwyd strwythurau atebolrwydd a'u cryfhau ar lefel rhanbarthol a lleol. Canlyniad hyn yw bod mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth a mwy o atebolrwydd gweithredol o fewn y gwasanaeth, ac ar draws yr AauLL. Proffil rhanbarthol uwchradd Estyn wedi gwella'n sylweddol.	C	2B/2C	Bwrdd Rheoli	Parhau i weithredu ac arfarnu'r model uwchradd newydd. Sicrhau atebolrwydd cadarn ar lefel rhanbarthol a lleol. Erys pryderon am effaith llawn y gwaith ar ganlyniadau CA4 2018. Ansefydlogrwydd yn y tîm uwchradd yn parhau - yn dal yn rhy ddiabynnol ar secondiadau tymor byr a chyfraniadau gan ymgynghorwyr annibynnol.

Tud. 68	15	Rh	Safonau	B1	Cyfradd gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn arafach na hwnnw ar lefel genedlaethol.	U	C	2A	Cynnig pecyn cefnogaeth i bob awdurdod, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a darpariaeth dda, a disgwyliadau a safonau uchel yn y CS. Adnabod ysgolion sy'n perfformio'n gyson isel a'r rheiny mewn perygl. Targedu cynhaliath i'r ysgolion hyn a chlystyrau o ysgolion. Cytundeb gan yr holl ALL i gynyddu'r capasiti o fewn GwE i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen - 1 Ymgynghorydd Her mewn swydd o Fedi 2017 a 2 yn rhagor o fis Ionawr 2018 i fonitro perfformiad ysgolion unigol a'u targedu fel y bo angen. Cynhaliwyd cyfres o weithdai cymedroli CS.	C	2C	UA-C	Parhau i fonitro perfformiad ysgolion unigol, a thargedu ysgolion risg uchel. Darparu rhaglen gefnogi Cyfnod Sylfaen Ranbarthol drwy Weithdai Rhanbarthol a cyfarfodydd Rhwydweithio i'r holl ysgolion. Rhaglen yn cael ei weithredu drwy dargedu arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau.
	17	Rh	Safonau	B1	Rhoi ysgolion uwchradd mewn categori Statudol Estyn.	U	U	2A	<ul style="list-style-type: none"> <li>nifer o ysgolion mewn categori statudol wedi cynyddu i 7 ysgol uwchradd.</li> <li>Mae rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth dwys iawn yn weithredol yn yr ysgolion hyn a chaiff cynnydd ei fonitro gan yr YCG cyswilt. Ble dyrchefir pryderon, rhennir yr wybodaeth gyda swyddogion yr ALL trwy gyfrwng y Byrddau Ansawdd.</li> </ul>	U	2B	RhG/CC/Uwch Arweinwyr	Sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol yn cael sylw cadarn mewn cynlluniau cefnogaeth. Sicrhau bod AauLl yn gweithredu'n gadarn ac yn syth mewn ysgolion ble rhannwyd pryderon am gyflymder y cynnydd.
	18	Rh	Safonau	I GYD	Dysgu ôl-16 - Gall mesurau perfformiad newydd a'r angen i gonsortia addysg rhanbarthol roi mwy o bwyslais ar berfformiad y cheched dosbarth (yn eu rôl 'herio a chefnogi' i ysgolion, a defnyddio dull 'traws awdurdod' i yrru gwelliannau a sicrhau cysondeb yn genedlaethol) amharu ar bwyslais consortia rhanbarthol ar safonau mewn addysg cyn-16.	C	U	2C	Adnabod arweinydd portffolio. Cynllun Busnes lefel 3 ar waith. Cytuno ar ddull gweithredu rhanbarthol o ran casglu data, cytuno ar raglen hyfforddi, pob YCG cyswilt yn yn rhoi sylw i berfformiad ôl-16 fel rhan o ymweliadau monitro. Perthynas waith dda gyda chydlynwyr 14-19. Nifer o ysgolion yn rhanb arth yn cymrd rhan mewn adolygiad thematig ôl-16 Estyn.	C	2D	Bwrdd Rheoli/RhG	Parhau i weithredu Cynllun Busnes lefel 3. Sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth ymhellach a sicrhau strwythurau a phrosesau mwy effeithiol ar gyfer rhannu'r arferion gorau.
	21	Rh	Busnes	B3/6	Amrywiaeth yn y gefnogaeth AD a ddarperir i ysgolion ar draws y rhanbarth	C / U	C / U	3A	Cynllun busnes AD lefel 3 ar waith er mwyn cydlynu gweithgaredd ar lefel rhanbarthol. Angen sicrhau cefnogaeth AD ranbarthol gyson ac o safon uchel i ysgolion.	C	3B	Bwrdd Rheoli	Monitro gweithrediad y Cynllun Busnes AD Lefel 3 drwy'r strwythur atebolrwydd a rheoli perfformiad diwygiedig. Y Cynllun Busnes yn cael ei gyflymyno'n effeithol.



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 Chwefror 2019

---

**Adroddiad gan:** Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

**Pwnc:** Y Gymraeg mewn Addysg – adolygu'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno diweddariad i'r Cydbwyllgor mewn perthynas ag adolygu'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth.

### 2. CEFNDIR

2.1 Mae *Cynllun gweithredu Y Gymraeg mewn addysg* yn gosod y cyfeiriad a chamau gweithredu penodol ar gyfer gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru, gan bwysleisio'r angen i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg.

2.2 Yng nghyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor, cymeradwywyd y cynnig i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol fel bod y rhanbarth yn ymateb yn llawn i gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau cyd-lynedd a chynhwysedd priodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.

2.3 Cyfarfu Bwrdd Rheoli GwE ar 18/01/19 a rhannwyd drafft cyntaf o'r cylch gorchwyl (Atodiad 1). Cytunwyd i Claire Homard, Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint ac Arwyn Williams, Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn i ymgymryd â'r gwaith o gasglu gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth ym mhob awdurdod ac i gael dealltwriaeth glir o weledigaeth, cynlluniau strategol a thargedau'r awdurdodau lleol. Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda'r Awdurdodau yn ystod ail hanner tymor y Gwanwyn.

---

### **3. MATERION I'W HYSTYRIED**

3.1 Ynghlwm mae Cylch Gorchwyl drafft (Atodiad 1) sy'n amlinellu'r canlynol:

- Rhesymeg dros gynnal yr adolygiad
- Y cyllidebau sydd o fewn sgôp yr adolygiad
- Llywodraethiant
- Methodoleg

3.2 Yn ogystal, mae Bwrdd Strategol y Gymraeg wedi comisiynu IAITH i lunio Strategaeth Ranbarthol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Fel rhan o'r broses maent wedi cynnal Gweithdai Strategol Rhanbarthol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg ym mhob awdurdod lleol gan gyflwyno amlinelliad cychwynnol o'r strategaeth fel sail i drafodaeth a chyd-gynllunio pellach ar amcanion, blaenoriaethau, dulliau gweithredu a deilliannau'r strategaeth. Bydd yr adolygiad yn aleinio gyda'r strategaeth hon.

### **4. ARGYMHELLION**

4.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

### **5.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1 Mae unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig.

### **6.0 EFFAITH O RAN CYDRADDOLDEB**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

### **7.0 GOBLYGIADAU PERSONÉL**

7.1 Mae unrhyw oblygiadau o ran personél yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig.

### **8.0 YMGYNGHORI Â WNAED**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Strategol Y Gymraeg, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

### **9.0 ATODIADAU**

9.1 Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Mae ystod o faterion yn cael eu cwmpasu yng nghylch gorchwyl arfaethedig y gwaith yma. Fe nodir yn gywir fod angen arweiniad cyfreithiol pellach ar gyfrifoldebau. Fel pob cydbwyllgor mae

swyddogaethau GwE yn cael eu dirprwyo gan yr Awdurdodau unigol ac mae angen sicrhau fod unrhyw benderfyniadau yn cael eu priodoli i'r corff cywir. Mae angen dealltwriaeth cynnar o bwy sydd â pherchen y penderfyniad neu ble mae'r ddyletswydd statudol yn gorwedd. Mae'n hanfodol felly fod blaenoriaeth yn cael ei roi i dderbyn yr arweiniad yma wrth gynllunio'r prosiect a gofynion cyfathrebu.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Yng nghyfarfod 28 Tachwedd 2018, penderfynodd Cydbwyllgor GwE gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol. Diweddariad sydd gerbron yma, ac unwaith eto mae rhan 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau bydd unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig. Felly, cadarnhaf eto bydd angen i'r awdur amlygu'r ymhlygiadau ariannol pryd bydd canlyniadau'r adolygiad gerbron Cydbwyllgor GwE. Ar yr adeg hynny, bydd modd i mi sylwebu o safbwynt priodoldeb cyllidol y bwriad / dewisiadau.

## Atodiad 1

### Cylch Gorchwyl (Drafft Ionawr 2019)

Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol i gefnogi'r Iaith Gymraeg er mwyn adnabod model darpariaeth fydd yn sicrhau fod y rhanbarth yn ymateb yn llawn i gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau cydlynedd a chynhwysedd priodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd.

#### Rhesymeg dros gynnal yr adolygiad

- Sicrhau gwasanaeth cyfoes a hyfyw sy'n cynnig cefnogaeth i bob ysgol ar y continiwm iaith.
- Osgoi dyblygu a sicrhau mwy o gysondeb rhanbarthol o ran cefnogi'r Gymraeg i ymateb i anghenion lleol.
- Sicrhau cydlynedd a chynhwysedd priodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.
- Sicrhau fod arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaedru ar draws y rhanbarth.
- Ymateb i'r agenda trawsnewid.

#### Strategaeth Ranbarthol

Mae Bwrdd Strategol y Gymraeg wedi comisiynu IAITH i gydweithio efo ni i lunio Strategaeth Ranbarthol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.

Fel rhan o'r broses byddent yn cynnal Gweithdy Strategol Ranbarthol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg ym mhob awdurdod lleol; ble byddent yn cyflwyno amlinelliad cychwynol o'r strategaeth fel sail i drafodaeth a chyd-gynllunio pellach ar amcanion, blaenoriaethau, dulliau gweithredu a deilliannau'r strategaeth.

Bydd hyn yn digwydd rhwng 23 Ionawr – a 7 Chwefror 2019.

#### Cylch Gorchwyl

Mae'r defnydd o'r cyllidebau canlynol o fewn sgôp yr adolygiad:

- Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg
- Grant Gwella Addysg (sy'n cyllido darpariaeth ar gyfer y Gymraeg)

Y bwriad yw cefnogi a chryfhau'r strategaethau lleol gan ystyried yr elfennau canlynol yng nghyd-destun cefnogi'r Gymraeg:

- Safonau
- Hyfforddiant y gweithlu (rhannol)
- Cynyddu niferoedd
- Dichonolrwydd – cyfrannu barn
- Cymedroli
- Adnoddau Cefnogol
- Arweinyddiaeth
- Cydlynwyr y Siarter Iaith (Fframwaith Newydd)
- Cwricwlwm



**Llywodraethiant**

- Angen cadarnhad cyfreithiol o'r trefniadau llywodraethu gan y bydd rhai o'r materion fydd yn codi yn rhai i'r Awdurdodau Lleol a'u Cabinet yn hytrach na'r Cydbwyllgor.
- Bydd y Bwrdd Rheoli a Chyd Bwyllgor GwE yn cael eu cadw'n gyfredol ynglŷn â'r adolygiad.

**Methodoleg**

- Angen sicrhau fod y rhesymeg dros gynnal yr adolygiad yn cael ei rannu gyda phob tîm yn yr awdurdodau er mwyn cael yr un neges, ar yr un pryd, er mwyn osgoi ansicrwydd.
- Angen deall beth yw'r ddarpariaeth bresennol ym mhob awdurdod ac i ba raddau y maen nhw'n effeithiol.
- Claire Homard neu Arwyn Williams i ymweld â phob awdurdod gyda swyddog o GwE er mwyn derbyn dealltwriaeth lawn o'r ddarpariaeth - bydd angen cynnwys swyddogion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y trafodaethau. Anelu i gyflawni hyn yn ystod ail hanner tymor y Gwanwyn.
- Angen edrych ar ddyraniad y GGA i'r Awdurdodau Lleol. Angen mapio'r ddarpariaeth gan bob ALL. Hefyd angen edrych ar eu cynlluniau strategol a thargedau – bydd hyn yn rhan o waith iaith. Cyf wrth ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol.
- Angen deall rolau pawb sy'n cyfrannu tuag at y gefnogaeth i'r iaith Gymraeg gan gynnwys yr athrawon ymgynghorol; angen mynediad at eu swydd ddisgrifiadau.
- Paratoi adroddiad fydd yn nodi canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yn unol â'r system llywodraethu.

**Amserlen (drafft)**

Cyhoeddi'r bwriad i gynnal adolygiad	
Gofyn am wybodaeth	
Ymweld a thrafod efo'r rhanddeiliaid	
Ysgrifennu'r adroddiad	
Cyflwyno'r adroddiad i Fwrdd Rheoli/ Cyd bwyllgor GwE	
Lansio'r Ymgynghoriad ffurfiol	



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 CHWEFROR 2019

---

**Adroddiad gan:** Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

**Pwnc:** Categorioidio Cenedlaethol

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am y broses Categorioidio Cenedlaethol.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r broses gategorioidio yn un barhaus drwy gydol tymor y gwanwyn, yr haf a'r hydref.

2.2 Trafodir gategorioidio gydol y flwyddyn â chynrychiolwyr AauLI yn y Byrddau Ansawdd Sirol a gynhelir bob pythefnos.

2.3 Nod y System Genedlaethol ar gyfer Categorioidio Ysgolion yw darparu strwythur clir i adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio. Mae'n rhoi ystyriaeth i ba mor dda y caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i berfformio'n well.

2.4 Mae'r system yn dangos pa ysgolion y mae arnynt angen y gefnogaeth a'r arweiniad mwyaf i wella. Mae hefyd yn dangos pa ysgolion sy'n perfformio'n dda ond a allai wneud hyd yn oed yn well a pha ysgolion sydd eisoes yn effeithiol iawn ac a allai helpu ysgolion eraill i berfformio'n well.

2.5 Caiff pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw mewn perthynas â chefnogaeth. Bydd pob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth wedi'i theilwra ar sail y categorïau hyn.

2.6 Nid labelu ysgolion na chreu tablau cynghrair yw nod y system. Ei hamcan yn hytrach yw helpu ysgolion i nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu cynnydd a'u lefelau cyflawni, a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn datblygu.

### **3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Dadansoddir y categoreddio yn llawn a'r grynodedb rhanbarthol yn Atodiad 1 – Adroddiad GwE ar y broses Categorieddio Cenedlaethol.

#### **3.2 Pob ysgol**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19. Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio fel gwyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.

#### **3.3 Cynradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.

#### **3.4 Uwchradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreddio fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn

17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.

### **3.5 Arbennig**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yn aros yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategorio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yn aros yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategorio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd yn aros yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.

### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

### **5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

### **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

### **8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad GwE ar y broses Categorioidio Cenedlaethol.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

## **ADRODDIAD GWE AR Y BROSES GENEDLAETHOL AR GYFER CATEGOREIDDIO (RHAGFYR 2018)**

### **Hyfforddiant ar gyfer Categorioreiddio Cenedlaethol**

- Darparodd yr Uwch Arweinwyr Cynradd ac Uwchradd hyfforddiant i ddiweddarau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) yn ystod tymor yr hydref 2018, gan ddefnyddio'r ddogfen ganllaw ddiweddaraf.
- Mynychodd pob YCG newydd hyfforddiant gyda'r Uwch Arweinydd Cynradd neu Uwchradd a, lle bo'n briodol, cawsant sesiwn 1:1 gydag Arweinwyr Craidd.
- Cafodd Penaethiaid eu briffio'n briodol ar Gategorioreiddio Cenedlaethol mewn Fforymau Strategol i Benaethiaid.
- Rhannwyd yr holl ddogfennau perthnasol ar Gategorioreiddio Cenedlaethol â Chyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol, Penaethiaid ac YCG drwy'r bwletin wythnosol a gwefan GWE.

### **Categorioreiddio Cenedlaethol - Ymweliadau ag Ysgolion**

- Mae'r broses gategorioreiddio yn un barhaus drwy gydol tymor y gwanwyn, yr haf a'r hydref. Cwblhawyd drafft cyntaf adroddiadau gategorioreiddio erbyn diwedd tymor yr haf.
- Rhannwyd arweiniad clir a thempledi enghreifftiol â phob YCG. Cyn llunio'r adroddiadau, ymgorfforwyd data perfformiad ar gyfer ysgolion uwchradd yn unig yn yr adroddiadau gan y Rheolwr Data. Roedd hyn yn sicrhau gwell cysondeb yn yr adroddiadau ar draws y rhanbarth.
- Cwblhawyd bron pob ymweliad gategorioreiddio erbyn 20 Tachwedd 2018, sef y terfyn amser y cytunwyd arno.
- Cwblhawyd gategorioreiddio yn fanwl gywir a grymus. Cwblhawyd ffurflenni F2 ar gyfer adroddiadau SA yn unol â'r canllawiau. Gofalodd yr Arweinwyr Craidd y sicrhawyd ansawdd pob adroddiad, a'u bod yn eu drafft terfynol erbyn dydd Mawrth 20 Tachwedd 2018. Roedd Uwch Arweinwyr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol hefyd yn samplu adroddiadau, yn ôl yr arfer.
- Cwblhawyd ymweliadau gategorioreiddio ar y cyd (F3) gan yr Arweinwyr Craidd mewn sampl o ysgolion ym mhob ALI erbyn 20 Tachwedd, yn unol â'r arweiniad.
- Cyfarfu Uwch Arweinwyr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol am ddiwrnod cyfan i sicrhau ansawdd yr adroddiadau gategorioreiddio ymhellach.
- Defnyddiodd pob YCG sylfaen dystiolaeth briodol i ddod i farn fanwl gywir a gwybodus ar gategorioreiddio.

### **Ansawdd Adroddiadau Categorioreiddio Cenedlaethol a Phrosesau Sicrhau Ansawdd**

- Fe wnaeth Arweinwyr Craidd sicrhau ansawdd o leiaf y tri adroddiad gategorioreiddio cyntaf gan bob YCG, a chwblhau'r ffurflen F2 berthnasol. Fe wnaeth y broses sicrhau ansawdd hon wella ansawdd adroddiadau pellach bron pob YCG, ac roedd sicrhau ansawdd 3 adroddiad yn ddigonol i ddangos gategorioreiddio cadarn. Rhoddwyd adborth gan ddefnyddio 'track changes'.

- Edrychodd Uwch Arweinwyr a Chyfarwyddwr Cynorthwyol hefyd ar hapsampl o adroddiadau categoreiddio. Roedd hyn yn sicrhau cysondeb mewn adroddiadau categoreiddio ar draws y rhanbarth.
- Ble cynhaliwyd ymweliadau ar y cyd rhwng yr arweinwyr craidd ac YCG, craffwyd ar ystod eang o dystiolaeth ym mhob ysgol, a daethpwyd i farn fanwl gywir. Mae sylwebaethau da ar yr holl ffurflenni F3 a gwblhawyd, sy'n adlewyrchu prosesau a gweithdrefnau trylwyr, yn unol ag Arweiniad Cenedlaethol.
- Ble roedd peth anghytuno ar y dechrau rhwng Penaethiaid ac YCG ynghylch categorïau cymorth, bu ymweliadau ar y cyd gyda'r Arweinwyr Craidd a'r YCG yn llwyddiannus o ran dod i gytundeb ar gatedoreiddio, a hynny cyn y bwrdd cymedroli rhanbarthol. Siaradodd yr Uwch Arweinwyr â Phenaeithiaid hefyd mewn rhai achosion (ychydig iawn).
- Trafodir categoreiddio gydol y flwyddyn â chynrychiolwyr AauLI yn y Byrddau Ansawdd Sirol a gynhelir bob pythefnos.

### **Cymedroli Rhanbarthol**

- Enwebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyfarwyddwr Cynorthwyol i weithredu fel y Cymedrolwr Arweiniol Rhanbarthol (CARh).
- Roedd y Bwrdd Cymedroli Rhanbarthol yn cynnwys y CARh a'r Arweinwyr Cynradd ac Uwchradd, a oedd yn goruchwyllo'r gwaith gyda phob awdurdod lleol, cynrychiolydd o'r rhanbarth a enwebwyd gan y Cyfarwyddwr Arweiniol a 2 Bennaeth a oedd yn cynrychioli ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd (cyfrwng Cymraeg/Saesneg a Ffydd). Roedd gan bob aelod o'r bwrdd y sgiliau a'r wybodaeth briodol ac wedi paratoi'n addas.
- Ymunodd CARh ERW â'r Bwrdd Cymedroli.
- Detholwyd 35 o ysgolion (sampl >5%) ar draws y chwe awdurdod lleol ar gyfer Cymedroli Rhanbarthol - cynyddwyd nifer yr ysgolion uwchradd eleni fel y cytunwyd yn y Bwrdd Ansawdd a Safoni Cenedlaethol (19 cynradd, 1 arbennig a 15 uwchradd). Roedd y rhain yn cynnwys ysgolion sy'n cynrychioli bob un o'r pedair farn am y gallu i wella, pob un o'r categorïau cymorth ac ysgolion ble rhoddwyd ystyriaeth i fwy nag un categori cymorth.
- Ni chyflwynwyd yr un ffurflen apelio F1
- Cafwyd trafodaeth gadarn yn ystod cymedroli. Fodd bynnag, ni newidiwyd yr un categoreiddio ar Gam 2 na Cham 3. Nodwyd yr holl sylwadau perthnasol ar y broses gatedoreiddio ac ansawdd yr adroddiadau ar y ffurflen F4 i bob ysgol.
- Cwblhawyd ffurflen F5, sy'n crynhoi canfyddiadau cymedroli rhanbarthol.
- Roedd ansawdd yr adroddiadau categoreiddio yn gyffredinol dda - cofnodwyd rhai mân bwyntiau ar gyfer gwelliant, i'w rhannu ag YCG unigol.



## Trosolwg o Gategoreiddio ALI a Rhanbarthol (ac eithrio UauCD)

Dadansoddir y categorieiddio yn llawn a'r grynodedb rhanbarthol isod.

### Pob ysgol

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorieiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorieiddio fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorieiddio fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorieiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorieiddio yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorieiddio fel gwyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.







## Cynradd

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.



Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.



## Uwchradd

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn 17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.



Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.



## Arbennig

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yn aros yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategorio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categorio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yn aros yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategorio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categorio yn wyrdd yn aros yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.



### Data trawsweledol Cam 2 a Cham 3

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cydberthynas uniongyrchol rhwng Cam 2 a Cham 3 (92.9%). Yn y lleiafrif o achosion (29 ysgol, neu 7.1%) mae sail resymegol glir ar gyfer capasiti uwch ar Gam 2, er enghraifft, B Melyngoch. Ni roddwyd barn is ar gapasiti Cam 2 i'r un ysgol, er enghraifft, C Melyn.

## Ysgolion mewn Categori Statudol Estyn ar hyn o bryd

Cafodd bob ysgol sy'n mynd i gategori statudol Estyn eu categoreiddio fel D Coch, a'u hadolygu yn dilyn cynnydd, fel y nodir yn yr arweiniad.

*'O dan amgylchiadau arferol, ni ddylai gallu ysgol y mae angen gwelliant sylweddol **neu fesurau arbennig arni fel arfer fod yn uwch na D a dylid pennu categori cymorth coch iddi i ddechrau. Wrth i ysgol ymdrin â'r argymhellion o'i harolygiad, dylid pwysu a mesur tystiolaeth am ei chynnydd yn ofalus a chymhwyso barn broffesiynol wrth adolygu categori cymorth yr ysgol.'***

Ar hyn o bryd (mis Rhagfyr 2018), mae 8 ysgol mewn categori statudol Estyn (o'i gymharu â 12 yn 2017-18):

- 4 ysgol gynradd (4 ysgol sy'n C Melyngoch ac sydd wedi gwneud cynnydd da dros 12 mis neu fwy ar ôl eu hadolygu o D Coch yn 2017-18).
- 4 ysgol uwchradd (3 ysgol D Coch, 1 ysgol C Melyngoch)

Mae sail resymegol glir i adolygu a newid y categori cymorth ar sail cynnydd yn erbyn argymhellion a pherfformiad diwedd cyfnod allweddol (ystyrir hefyd ers pa bryd y bu'r ysgol mewn categori).

## Y broses categoreiddio yn GwE

### Cryfderau

- Cydberthynas dda rhwng y broses categoreiddio a chanfyddiadau Estyn.
- Prosesau cadarn a chyson mewn lle
- Mae gwell cysondeb ar draws y rhanbarth ac mae adroddiadau YCG o safon dda yn gyffredinol.
- Mae YCG yn adnabod eu hysgolion yn dda, ac mae ysgolion wedi'u categoreiddio yn fanwl gywir a chadarn.

### Agweddau i'w datblygu

- Parhau i weithio'n agos gyda'r Grwp Ansawdd a Safonau er sicrhau yr hysbysir yr holl randdeiliaid am unrhyw newidiadau mewn Categoreiddio Cenedlaethol.
- Datblygu ymhellach gweithio trawsranbarthol er mwyn symud ymlaen a sicrhau cysondeb cenedlaethol yn y broses.
- Cynnwys YCG ymhellach mewn asesu cymheiriaid yn y broses sicrhau ansawdd.



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 Chwefror 2019

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Calendr Cyfarfodydd

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar raglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

### 2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

### 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

## **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

## **9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2019/20.

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, bydd 8 Gorffennaf 2019 yn amserol ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2018/19, tra bydd 11 Medi 2019 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2018/19, sy'n ofyniad statudol orfodol cyn 15 Medi.

**Atodiad 1:**

**Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2019-2020**

<b>CYFARFOD</b>	<b>DYDDIAD</b>	<b>AMSER</b>	<b>LLEOLIAD</b>
Cyd-Bwyllgor GwE	08/07/2019	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	11/09/2019	2.00 y.p	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	27/11/2019	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	26/02/2020	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	20/05/2020	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn